# Y Bont

Rhifyn 76
ISSN 1464-4282

Clybiau Plant Cymru
KIDS' CLUBS
www.clybiauplantcymru.org

Gaeaf 2020



## Yn y rhifyn hwn...

* **Comisiynydd Plant Cymru**
* **Newyddion Rhanbarthol**
* **Chwarae cost isel**
* **Drosodd atoch chi, blant!**

**...a mwy!**

Cwmni Cyfyngedig
drwy Warrant 4296436
Elusen Gofrestredig 1093260
Yn gweithio mewn partneriaeth â:

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Clybiau Plant Cymru
KIDS' CLUBS

Rhifyn 76 Gaeaf 2020

## Yn y rhifyn hwn...

Llythyr gan y Prif Swyddog Gweithredol..............2
Comisiynydd Plant Cymru..........3
Ffocws ar Orllewin Cymru........4 & 5
Ffocws ar Ogledd Cymru..........6 & 7
Ffocws ar Dde Ddwyrain Cymru..8 & 9
Hyfforddiant..........................10-13
Cymraeg.....................................14
Chwarae wedi Covid-19.............15
Syniadau Codi Arian....................15
CCB..........................................17
Chwarae Cost Isel.......................18
Cwrdd â'r Tîm - Rhifyn y Chwarae.......................20
Arolygiaeth Gofal Cymru..............21
Chwarae o Safon.........................22
Hyrwyddo Chwarae......................23
Drosodd i chi, blant!.........24 & 25
Gweithgareddau..........................26

Ymwadiad:
Gwneir pob ymdrech gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs i sicrhau bod cynnwys ein newyddlen yn gywir  Dylech nodi nad yw Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn cymeradwyo unrhyw un o'r gwasanaethau, clybiau, gweithgareddau nac erthyglau, ac ni fydd yn gyfrifol am unrhyw weithred ar ran unrhyw berson neu grŵp o bobl sy'n darllen y newyddlen. Er gwybodaeth yn unig y dosberthir y newyddlen; heb gyfrifoldeb na rhwymedigaeth gyfreithiol.

Cwmni cyfyngedig drwy warant 4296436
Elusen Gofrestredig 1093260
Swyddfa Gofrestredig:
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs,
Tŷ'r Bont, Ffordd yr Orsaf, Llanisien,
Caerdydd. CF14 5UW
Ffôn: 029 2074 1000
Ffacs: 029 2074 1047
E-bost: info@clybiauplantcymru.org
Y We: www.clybiauplantcymru.org

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Annwyl Aelod o Glwb Gofal Plant All-Ysgol



A'r Nadolig yn prysur agosáu a blwyddyn newydd (a gobeithio un fwy 'normal') i edrych ymlaen ati yn 2021, rydym wedi neilltuo'r rhifyn hwn o'r Bont ar gyfer hawl plant a phobl ifanc i chwarae, ac mae'n cynnwys llu o syniadau am weithgareddau a ffynonellau gwybodaeth i'w cefnogi. Rydym yn canolbwyntio ar fuddiannau mawr chwarae i lesiant emosiynol a chorfforol plant, a'r ffordd y mae'n meithrin creadigrwydd, gwydnwch a hyder. Yn wyneb effaith y Pandemig, mae'n fwy hanfodol fyth i dynnu sylw at bwysigrwydd a buddiannau chwarae.

Fel arfer, rydym yn cefnogi plant a phobl ifanc yn eu hymwybyddiaeth o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i 54 Erthygl. Yn y rhifyn yma o'r Bont rydym wedi canolbwyntio'n benodol ar Erthygl 31, hawl plant i chwarae, ac ar hyrwyddo rhoi'r amser, y lle a'r caniatâd i chwarae i bob plentyn. Rydym am annog Lleoliadau i gefnogi plant a phob ifanc i wybod eu hawliau, ac fel Gweithwyr Chwarae i allu eirioli'n hyderus dros hawliau plant a phobl ifanc. Yn y rhifyn hwn rydym yn cyfweld Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru, i wybod eu meddwl hi ar hawl plant i chwarae. A chawsom hefyd gyfraniadau ar hyn gan blant!

Mae gennym luniau o'n Diwrnod Chwarae ar eich cyfer a gwybodaeth am yr ymgysylltu a'r hwyl ardderchog a gawsom oll ar Awst 5ed. Dangosodd y diwrnod hwn fod cyfleoedd yn dal yno, hyd yn oed yn yr adegau rhyfedd hyn, i fynd allan a chael rhywfaint o hwyl.

Rydym hefyd yn dal yn ymwybodol o ba mor anodd y bu ar y Sector Gofal Plant Allysgol i adfywio, a hoffem fanteisio ar y cyfle yma i dalu teyrnged i'r Gweithwyr Chware, y Rheolwyr a'r Pwyllgorau ar hyd a lled Cymru sydd wedi parhau i weithio gydag angerdd ac ymroddiad i ailagor a chynnig gwasanaethau sydd eu taer angen i gymunedau lleol. Mae ein tîm o Swyddogion Datblygu Busnesau Gofal Plant a'n Swyddogion Hyfforddi wedi bod wrth law trwy gydol y pandemig, gan gefnogi goroesiad ac adfywiad Lleoliadau, ac maent yn awr wrthi'n ddygn yn eich cefnogi i fynd ymlaen i ffynnu. Tra bo'r rhifyn hwn yn canolbwyntio ar y plant, rydym yn deall fod y niferoedd sy'n defnyddio Lleoliadau yn is ac y gallai fod gostyngiadau mewn incwm wrth i wariant gynyddu. Gallwn eich cefnogi i **adlewyrchu ar bob agwedd o'ch Lleoliad gyda'r Asesiad Allysgol**. Bydd hyn yn gymorth i chi weld lle y gallwch newid pethau i sicrhau eich bod yn para'n gynaliadwy ac yn dal i gynnig cyfleodd chwarae o ansawdd i blant tra bo'u rhieni'n mynd allan i weithio neu hyfforddi. Mae'r adolygiad yma o'ch Lleoliad yn edrych ar ansawdd yr agwedd fusnes yn ogystal â'r Gwaith Chwarae yr ydych yn ei gynnig. Gall ein tîm eich cefnogi i adeiladu ar y ddwy agwedd drwy ddatblygu cynllun gweithredu a'ch cefnogi i gyrraedd yr ansawdd gorau o ran rheoli yn ogystal â'r cyfleoedd chwarae i'ch plant.

Mae ein prosiect Pawb a'i Le - Cysylltu a Chefnogi'r Gymuned Gofal Plant Allysgol,, dan nawdd Cronfa Gymunedol y Lotri Genedlaethol wedi ein gweld yn dal i gyrraedd ein nodau gwreiddiol o ran y prosiect yn ogystal â chefnogi Clybiau i ymateb i Covid-19 ac i ailagor wedi Covid-19, gydag ariannu ychwanegol o'r gronfa hon. Byddwn yn parhau i wneud hyn gyda chefnogaeth fusnes, gweminarau ac adnoddau. Rydym yn dal i gydweithio'n agos â'n Hawdurdodau Lleol sy'n wedi eu hariannu, sef Casnewydd, Abertawe, Conwy a Gwynedd, i gynnig cefnogaeth bwrpasol i Leoliadau yn y Siroedd hynny. Cofiwch fod ein tîm o ran ei hanfod wedi ei gymell i wneud y gorau drosoch chi a'ch Lleoliadau ac yn dymuno eich gweld oll yn ffynnu ac yn parhau i ddarparu ar gyfer eich cymunedau a bod yn rhan annatod o economi sylfaenol Cymru.

Mae gennym brosiectau eraill yn ogystal, y gwelwch fwy yn eu cylch yn y rhifyn hwn, cystadleuaeth ein Prosiect Garddio Canmlwyddiant Tesco: Tyfwch eich Gwledd eich Hun, hefyd newyddion cyffrous am ein prosiect Cymraeg Gwaith.

Cofiwch hoffi'n tudalen facebook ac i ymweld â'n gwefan am ddiweddariadau rheolaidd, gwybodaeth a chefnogaeth. Cysylltwch ag un o'n timau Rhanbarthol a dowch yn aelod i gael hyd yn oed mwy o adnoddau i helpu'ch Clwb Gofal Plant Allysgol i ffynnu yn 2021.

Wedi canolbwyntio yn y rhifyn yma ar hawl plant i chwarae, yn awr yw'r adeg i sicrhau bod gan eich holl staff gymhwyster mewn Gwaith Chwarae, a'r terfyn amser, Medi 2021 yn agosáu. Mae gan Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs nifer o gyfleoedd i chi a'ch staff ennill y cymhwyster hwn, a chyda'n hyfforddiant yn cael ei raddio'n uchel iawn (byddai 97% o'n myfyrwyr yn argymell ein hyfforddiant) pa amser gwell i archebu'ch lle ar gymhwyster mewn pryd ar gyfer y Flwyddyn Newydd. Ewch i'n tudalen Hyfforddi a gwyliwch ar y cyfryngau cymdeithasol am gyfleoedd yn eich ardal chi. Neu gallech lenwi ffurflen Mynegiant o Ddiddordeb ac fe gysylltwn â chi gyda'r manylion argaeledd.

Gan dymuno ichi Nadolig heddychlon ac iach,



Jane O'Toole,
Chief Executive Officer

# Cyfweliad â Chomisiynydd Plant Cymru

Ni allwn gael rhifyn o'r Bont yn canolbwyntio ar Hawl Plant i Chwarae heb gael cyfweliad â Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y byd i benodi Comisiynydd Plant, oedolyn yn y Llywodraeth sydd â'i ffocws ar hybu, hyrwyddo a diogelu hawliau plant a phobl ifanc, eu diddordebau a'r penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Fe wnaethom ofyn ychydig gwestiynau i'r Comisiynydd Plant:

*1. Beth yw'ch hoff atgof fel plentyn?*
Chwarae yn 'the Burn' gyda phlant arall o'r gymdogaeth. Roedd hon gynt yn ardd farchnad a adawyd i dyfu'n wyllt Roedd yn wych ar gyfer deniau a choed ffrwythau hefyd yn rhan o'r darlun cymysg hon felly roedd gennym ddigon i'w fwyta!

*2. Allwch chi sôn wrthym am Fframwaith Dull Hawliau Plant?*
Mae hwn yn gosod fframwaith i unrhyw gyfundrefn sy'n gweithio gyda phlant i gymhwyso hawliau plant yn ôl Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i'w gwaith. Y mae'n helpu sefydliadau i adnabod yr hyn y maent eisoes yn ei wneud yn dda, a gosod y rhain mewn fframwaith cydlynol. Y mae hefyd yn tynnu sylw at y bylchau y byddem efallai am weithio arnynt. Hyd yma y mae wedi ei ddefnyddio gan fyrddau iechyd, carchar ieuenctid, cynghorau, amgueddfeydd, yr heddlu a Chyfoeth Naturiol Cymru, yn ogystal â nifer fawr o ysgolion unigol. Y mae 5 egwyddor:

1. **Gwreiddio hawliau plant**. Golyga hyn y sefydliad yn datgan yn glir ei fod yn gweithio er mwyn rhoi hawliau plant ar waith. Mae rhai sefydliadau wedi gosod hyn allan mewn Siarter, neu set o addewidion i blant. Dylai sefydliadau hefyd wneud yn sicr fod yr holl staff wedi eu hyfforddi, eu bod yn deall hawliau plant a bod yna arddangosfeydd cyhoeddus, megis posteri a hysbysiadau ar wefannau ac ym mhob polisi. Er enghraifft, wrth ysgrifennu polisi diogelu plant, mae'n beth da dyfynnu erthygl 19 yr UNCRC, neu bolisi ar anwahaniaethu, er mwyn datgan erthygl 2. Mae hyn yn bwysig, gan y dylai plant wybod eu bod yn derbyn ein gwasanaethau am fod ganddynt hawl i dyfu'n hapus, yn iach ac y ddiogel.
2. **Awahaniaethiad a chyfartaledd.** Mae hon yn egwyddor bwysig o ran yr holl hawliau dynol. Dylai gwasanaethau ystyried nid yn unig a ydynt yn trin plant yn gyfartal pan fyddant yn derbyn eu gwasanaethau, ond a oes plant sy'n methu eu gwasanaethau am fod gormod o rwystrau yn eu ffordd?
3. **Grymuso.** Ni all plant ymgymryd â'u hawliau oni bai eu bod yn gwybod amdanynt a bod ganddynt brofiad da ohonynt. Dylem sicrhau bod gan blant gyfleoedd i ddysgu bod ganddynt hawliau, a rhoi cyfle iddynt ddatblygu sgiliau, er enghraifft wrth gymryd rhan mewn trafodaethau. Mae'n wirioneddol bwysig bod plant yn deall bod ganddynt hawl i fod yn ddiogel, er enghraifft. Rwyf wedi cyfarfod â phobl ifanc sydd wedi dweud wrthyf nad oedden nhw'n deall bod y cam-drin yr oedden nhw'n ei ddioddef pa oedden nhw'n ifanc yn anghywir, neu fod ganddynt hawl i gael gwrandawiad.
4. **Cyfranogaeth.** Mae sefydliadau'n fwy tebygol o gael y penderfyniadau'n gywir y tro cyntaf os ydyn nhw'n cynnwys y bobl y byddant yn effeithio arnynt fwyaf. Mae hyn yn rhoi dewisiadau i blant, a chyfle i roi adborth fel unigolion, ond hefyd i'w cynnwys ar bwyllgorau a byrddau cynghori'r sefydliad. Dyma pam fod gennym gynghorau ysgolion. Mae yn awr fyrddau ieuenctid yn ogystal.
5. **Atebolrwydd.** Mae hyn ynghylch siarad yn uniongyrchol â phlant ynghylch yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wnaed, pa mor dda yr ydym wedi ei wneud, sut ydym ni wedi cymryd sylw o'u hadborth. A oes gennym fersiwn plant o'n hadroddiad blynyddol? A yw'n system gwynion yn hygyrch i blant?

*3. Sut allai hyn fod yn ddefnyddiol i Glybiau Allysgol ar draws Cymru?*
Credwn y gall pob cyfundrefn, pa mor fawr neu fach bynnag, fod ar ei hennill o weithio gyda'r fframwaith hwn. Er mai cyfundrefn hawliau plant yw fy nghyfundrefn i, pan wnaethom gymhwyso'r fframwaith i ni ein hunain, fe wnaethom sylweddoli bod gennym eto waith i'w wneud, er enghraifft ar gyfathrebu gyda phlant anabl.

Mae Clybiau Allysgol yn darparu gwasanaeth hollbwysig i'n plant. Gallant gydnabod ei bod yn gwneud gwaith hawliau plant drwy ddarparu hawliau i chwarae, i fod yn ddiogel ac i ddatblygu eu potensial llawn. Drwy ystyried yr egwyddorion uchod gallant ystyried a oes mwy o feysydd i weithio arnynt, er enghraifft, rhoi mwy o gyfle i'r plant gymryd rhan mewn penderfyniadau. Mae nifer o gwestiynau, syniadau ac enghreifftiau i'w gweld ar fy ngwefan. https://www.childcomwales.org.uk/resources/childrens-rights-approach/right-way-childrens-rights-approach-wales/

*4. Sut allwn ni, fel oedolion sy'n gweithio ac yn eiriol dros blant, ddangos i blant ein bod yn rhoi gwerth ar eu hawl i chwarae?*
Mae'n bwysig fod plant yn gwybod bod yr hawl hwn y berthnasol iddyn nhw. Gallwn ddweud wrthyn nhw fod hyn yn golygu bod y Cenhedloedd Unedig yn dweud bod hyn yn rhywbeth sydd ei ANGEN arnynt, fel bwyta, cysgu, er mwyn tyfu'n iach ac yn hapus. Nid rhyw drît bach yw hyn.

*5. A ydych hi'n teimlo yn awr, yn fwy nag erioed, bod hawl plentyn i chwarae yn bwysig?*
Yn sicr. Mae pwysau mawr ar blant i lwyddo y dyddiau hyn, yn academaidd, mew chwaraeon a.y.b. Yn y diwedd maen nhw'n aml yn mynd i lawer o weithgareddau sydd wedi'u trefnu wedi oriau ysgol, pethau megis nofio, tiwtora ychwanegol, cerddoriaeth, ac maen nhw'n dweud wrtha i nad oes ganddyn nhw ddigon o amser i ymlacio a chwarae. Yn ystod cload Covid fe wnaethom gynnal arolwg o 240,000 o blant oed 3-18 yng Nghymru. Er bod rhai yn ei chael hi'n anodd, roedd rhai'n mwynhau'n fawr cael cymaint yn fwy o amser i wneud dim ond chwarae.

*6. Pa mor bwysig yn eich tyb chi yw bod plant yn chwarae yn eu cymunedau?*
Mae hyn yn bwysig iawn er mwyn meithrin perthnasoedd a chydlyniad cymunedau, yn ogystal ag er mwyn iechyd a llesiant plant.



Mae llawer mwy o draffig ar y ffyrdd nag a oedd i genedlaethau blaenorol, ac mae gan blant lawer llai o ryddid i grwydro nag a gefals i yn tyfu yn y 70au a'r 80au. Mae bod â chyfleoedd lleol i chwarae, y mae rhieni a gofalwyr yn ymddiried ynddynt yn bwysig iawn. Mae hyn yn cynnwys clybiau, ond hefyd parciau sy'n teimlo'n ddiogel, lleoliadau chwarae mynediad-agored a strydoedd chwarae. Dwi hefyd yn credu y bydd newid i derfynau cyflymder o 20 milltir yr awr ym mhob ardal breswylwyr hefyd yn help.

*7. Sut all cymunedau ddangos eu bod yn rhoi gwerth ar blant a phobl ifanc a'u hawl i chwarae?*
Dylai pawb wybod bod gan blant yr hawl i chwarae, a dwedwch hyn wrth blant hefyd! Drwy drefnu mannau diogel i chwarae, fel gofyn i'r cyngor ganiatáu cau strydoedd ar adegau arbennig i ddarparu strydoedd chwarae, rydym yn rhoi neges rymus iawn i blant.

*8. A allai Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol fod yn gwneud mwy i dynnu sylw at chwarae fel blaenoriaeth ym mywydau plant?*
Mae gennym ymrwymiadau cryf yng Nghymru i Chwarae, ond gallem yn bendant wneud mwy. Fe hoffwn i weld llawer mwy o chwarae mynediad-agored. Rwy'n hoff iawn o'r symudiadau i gael meysydd chwarae antur a does gennym ni ddim llawer o'r rhain o gwbl yng Nghymru. Mae'r rhai yr wyf i wedi ymweld â nhw wedi bod yn rhai gwych, ac yn rhannau mor bwysig o'r gymuned.

### Rhannu'r Newyddion Da!

A oes gennych chi fel clwb newyddion da i'w rhannu â phawb? A fuoch yn llwyddiannus o ran cais am ariannu, neu gael eich cofrestru? A ydych wedi dod yn gorfforedig, neu wedi cael archwiliad rhagorol? Rhowch wybod inni, ac fe'u rhannwn yn y rhifyn nesaf o'r Bont. Bloeddiwch eich llwyddiant dros bob man, chi a'i henillodd! Rhowch wybod i ni'r pethau y gwnaethoch eich cyflawni drwy anfon e-bost i membership@clybiauplantcymru.org



# Gorllewin Cymru

## Hanes Llwyddiant dros yr Haf



I lawer o Leoliadau Gofal Plant, roedd gorfod cau eu lleoliad yn sgil Covid-19 yn brofiad hynod bryderus a rhwystredig, ond i un o Glybiau Abertawe, Childsplay at Crwys, roeddent yn teimlo'n bur anlwcus pan gawsant eu gorfodi i gau eu Clwb Ôl-ysgol ac Amlapiol dim ond 3 wythnos wedi llwyddo i gofrestru gydag AGC. Roedd y misoedd dilynol, yn naturiol, yn rhai hynod bryderus, ond drwy gyfrwng gwaith caled a phenderfyniad, ail-agorodd Sam, perchennog y busnes, ei drysau i deuluoedd a bu modd iddi ddarparu gofal gwyliau am y tro cyntaf. Rhoddodd hyn y cyfle iddi ailgysylltu â theuluoedd yn yr ardal a chefnogi cyfnod trawsnewid y plant wrth iddynt ddychwelyd i'r ysgol ym mis Medi Mae Clwb Gwyliau Childsplay at Crwys yn un o ddau Glwb Gwyliau y mae Childsplay yn eu darparu yn Abertawe, ac mae'r ddau glwb wedi llwyddo yr Haf yma, wrth i'r plant gael digonedd o hwyl ac ailgydio yn eu perthynas â'u ffrindiau.



## Cyfnod 2 Cronfa Cadernid Economaidd; Llwyddiant yng Ngorllewin Cymru

Gyda phleser yr adroddwn fod ein cefnogaeth a'n harweiniad wedi helpu mwy o Glybiau Gofal Plant Allysgol i wneud ceisiadau llwyddiannus am £10,000 mewn ariannu grant o ail gyfnod Cronfa Cadernid Economaidd y Llywodraeth.

Adborth lleoliadau llwyddiannus –

*'Ardderchog, diolch i chi am eich holl help a'ch cefnogaeth, mae'n golygu llawer i mi, dwi ddim yn gwybod ble fyddem ni hebddoch chi'* (Derbyniwyd 11/06/2020)

*'Rydym yn hynod falch o allu dweud ein bod wedi derbyn ein Cronfa Cadernid Economaidd!! We-hei, mae hyn yn ollyngdod mawr i ni o dan yr amgylchiadau presennol. Diolch am eich cymorth yn y mater yma'.* (Derbyniwyd: 23/07/2020)

Mae'n dda gennym fod rhai clybiau wedi llwyddo i gael y canlyniad yr oedden nhw' ei daer angen yn ystod y cyfnod ansicr hwn. Ac amgylchiadau llawer yn parhau'n ansefydlog, deallwn y bydd yr arian yma'n cael ei ddefnyddio gan fwyaf i ateb cost cyflogau a chynorthwyo'r lleoliadau i ailagor wrth i niferoedd y plant gynyddu'n raddol.

Erys yn wir hefyd nad yw nifer fawr o'r busnesau, yn cynnwys y rhai hynny sy'n gweithio mewn sefydliadau anghorfforedig, wedi gwneud eu hunain yn gymwys i dderbyn unrhyw gefnogaeth a fu ar gael hyd yma. Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn dal i lobïo a chynrychioli'r Sector ar lefel strategol, gan bwysleisio'r angen am gymorth ariannol i'r holl Leoliadau Gofal Plant.

Er mwyn diogelu'ch busnes yn y tymor hir, ac i agor cyfleoedd mwy am ariannu, hoffem annog Clybiau Gofal Plant Allysgol i adolygu'r ffordd y maent wedi eu llywodraethu. Os ydych ar hyn o bryd yn fusnes anghorfforedig, gall ein hadnodd Camu Allan (sydd ar gael i aelodau) eich helpu i ddewis strwythurau busnes eraill, ac y mae'n darparu'r holl bolisïau a gweithdrefnau angenrheidiol i'ch helpu i wneud y newid hwnnw. https://www.clybiauplantcymru.org/pdfs/Stepping%20Out%202019%20english%20final%20(wecompress.com).pdf (Mae tudalennau 28 - 32 yn dangos rhai o'r mathau mwyaf priodol o wneud elw, a'r sefydliadau nid-er-elw sy'n bodoli. Y mae hefyd yn rhoi manteision ac anfanteision eu strwythurau.)

Gall ein Swyddogion Datblygu Busnesau Gofal Plant eich cefnogi i:

- Gwblhau Asesiad Clwb Allysgol, a fydd yn eich helpu i asesu pob agwedd ar eich darpariaeth.
- Ffurfio cynllun gweithredu er mwyn adeiladu ar gryfderau'ch busnes.
- Adolygu'ch ffurf gyfreithiol sy'n eich cefnogi chi a'ch Busnes/Menter Gymdeithasol orau (Sefydliad Cofrestredig Elusennol (SCE), Cwmni a gyfyngir trwy warant a.y.b.
- Cefnogaeth gydag anghenion cofrestru eraill (Arolygiaeth Gofal Cymru AGC, Y Cynnig Gofal Plant, gyda CThEM o ran Gofal Plant Di-dreth lle bydd y llywodraeth yn cymorthdalu 20% o ffioedd rhieni).
- Creu, addasu a rhoi eich cynllun busnes ar waith yn effeithiol.
- Cael hyd i ariannu sy'n gymwys i'ch strwythur cyfreithiol a chwblhau ceisiadau perthnasol am ariannu.

Ein nod erioed fu i gefnogi pob Clwb Gofal Plant Allysgol i gadw'n gynaliadwy drwy'r cyfnod yma. Felly mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, gydag ariannu ychwanegol o Gronfa Gymunedol y Lotri Genedlaethol, yn awr ar gael i gefnogi Clybiau Gofal Plant Allysgol yng Nghymru i gryfhau eu ffurf gyfreithiol i gefnogi gwell cynaliadwyedd a diogelu'r gwasanaethau hynny i genedlaethau'r dyfodol.

Os yw'ch clwb yn ystyried newid ei ffurf gyfreithiol, yn wynebu heriau ariannol, yn awyddus am gymorth ynghylch hyfforddiant a chymwysterau, neu unrhyw gymorth pellach, peidiwch â phetruso rhag cysylltu â ni ar@


www.clybiauplantcymru.org
Swyddfa Caerdydd:
info@clybiauplantcymru.org
Swyddfa Bae Colwyn:
info-nw@clybiauplantcymru.org
Swyddfa Cross Hands:
info-ww@clybiauplantcymru.org


### Angen cysylltu â ni?


Cewch gysylltu â Thîm Gorllewin Cymru drwy ffonio: 01269 831010, drwy ebost: info-ww@clybiauplantcymru.org trwy'r post: Uned 2, Clos Gelliwerdd, Parc Busnes Cross Hands, Cross Hands, Sir Gaerfyrddin. SA14 6RX




## Lleoliadau'n dychwelyd i normaledd


Tuag at fisoedd ola'r flwyddyn, dechreuodd y mwyafrif o glybiau yng Ngorllewin Cymru ddechrau ailagor, gan ddwyn canlyniadau cadarnhaol y tu hwnt i'n cymunedau -

*"Y peth gorau am ailagor oedd dychwelyd i drefn, a chyfarwyddo a'r normaledd newydd. Bu'r cyfnod pontio'n un esmwyth, gyda chefnogaeth staff, plant a'n teuluoedd. Nid yw'r normaledd newydd mor frawychus â hynny, mwy o waith papur, mwy o'r chwistrell wrthfacteria a glanhawr dwylo, ond mae'r addasu wedi bod yn rhwydd, ac mae fel petaem wedi bod yn gwneud hyn erioed. Mae'r plant wedi bod yn wych, ac wedi addasu mor dda, sydd yn bwysig iawn, yn enwedig i'r rhai ag anghenion ychwanegol'.*

*'Pethau'n mynd yn dda iawn yn y Clwb! Blinedig, poeth iawn ond llawer o hwyl.'*

Cododd lleoliadau i'r her o ddod yn 'Govid-ddiogel' â phendantrwydd proffesiynol, ac mae'n bleser mawr gennym ddweud i'r Hydref weld ailsefydlu'r mwyafrif o ddarpariaethau Allysgol yn y rhanbarth. Edrychwn ymlaen yn awr at barhau'r llwyddiant yma drwodd at y flwyddyn newydd a thrwy gydol 2021.

## Ariannu i Abertawe dros yr Haf



Bu Clybiau Gwyliau Haf a Meithrinfeydd Dydd ar hyd a lled Abertawe ar eu hennill o gael grant cynaliadwyedd gan Gyngor Abertawe yr Haf hwn. Pwrpas y grant hwn oedd sicrhau bod Lleoliadau Gofal Plant mewn lle cadarn i gyflenwi lleoedd Gofal Plant Gwyliau yr Haf yma - wedi cyfnod clo Covid-19. A'r economi'n araf ddychwelyd i normalrwydd, gwelwyd y byddai angen digon o Leoedd Gofal Plant dros Wyliau'r Haf i wneud yn sicr bod rhieni'n gallu dychwelyd i'w gwaith, ac i gynnig cyfleoedd chwarae i blant wedi toriad hir. Wrth gydnabod y gallai Lleoliadau Gofal Plant fod yn rhedeg â llai o blant a staff ychwanegol i wneud yn sicr y byddent yn gallu rheoli grwpiau cyson a rotas glanhau, rhoddodd y grant y cyfle i wneud cais am gefnogaeth ariannol i ateb y diffyg hwn.

Yn ychwanegol at hyn, roedd modd i Leoliadau ystyried pa gostau ychwanegol y gallent fod yn eu hwynebu er mwyn sicrhau y gallent ddarparu amgylchedd diogel; er enghraifft o ran Offer Diogelu Personol (PPE) a deunydd glanhau. Heb y grant hwn, ni fyddai nifer o leoliadau wedi gallu darparu gofal gwyliau yr Haf hwn; byddai hyn nid yn unig yn niweidiol i'w busnes ond hefyd o bosibl yn gadael rhieni a gofalwyr yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i ofal plant wrth iddynt ddychwelyd i'w gwaith.

Trwy gydol y cyfnod clo bu Lleoliadau Gofal Plant yn dweud gymaint yr oeddent yn gweld eisiau'r plant yr oeddent yn gofalu amdanynt, a'u bod yn eiddgar iawn i ailagor. Dywedodd un Darparydd Gofal Plant a fu ynghau ers mis Mawrth, 'bydd y grant yma'n lliniaru tipyn ar y poeni a'r pwysau'. Bu'n wych gweld Lleoliadau Gofal Plant yn ailagor a defnyddio Gwyliau'r Haf fel cyfle i ailadeiladu eu busnes a chysylltu â theuluoedd wedi cymaint o amser i ffwrdd.

## Chwarae y Tu Allan



Yn dilyn argymhelliad Llywodraeth Cymru i Leoliadau Gofal Plant a Chwarae fod y tu allan gymaint â phosibl yn ystod ac wedi pandemig Covid-19, penderfynodd un lleoliad yn Abertawe edrych ar ffyrdd y gallent ddefnyddio'u gwagle presennol y tu allan i'r adeilad ac adeiladu ar yr amser yr oeddent eisoes yn ei dreulio y tu allan, gan wneud yn siŵr eu bod yn gwneud popeth a allent i gadw plant yn ddiogel. Roedd gan berchennog, bev Burgess o Glwb Ôl-ysgol a Gwyliau Hendrefoilan, eisoes ethos cryf o ran yr awyr agored, ond gan ddilyn y cyngor i fod y tu allan gymaint â phosibl, roedd am wneud yn siŵr y gallai eu staff a'r plant fwynhau bod y tu allan ym mhob tywydd. Cytunodd y Lleoliad y byddai angen iddynt - os am gynyddu eu hamser y tu allan - sicrhau bod ganddynt gyfarpar chwarae digonol (yn enwedig y math y gellid ei lanhau'n drwyadl ac yn rheolaidd), a chysgod digonol i sicrhau y gallai'r plant chwarae y tu allan ym mhob tywydd, a bod digon o gyfleoedd am risg mewn chwarae a chwarae creadigol.



Daeth ardal goediog nesaf at yr adeilad yn fan perffaith i'r plant gysylltu â natur a bod â lle a oedd yn fythol newidiol i chwilota ynddo. Gyda chefnogaeth athro o Ysgol Goedwig, dangoswyd i'r Gweithwyr Chwarae ac i'r plant sut orau i ddefnyddio'r lle, a rhoddwyd iddynt syniadau am weithgareddau y gallent ddal i'w gwneud drwy bob tymor. Yn ogystal â bodloni arweiniad Llywodraeth Cymru cydnabu'r Lleoliad y manteision i lesiant meddyliol plant o fod yn yr awyr agored, hefyd i'w hiechyd corfforol, eu hyder i gymryd risgiau a'u parch tuag at eu hamgylchedd a lle llawn natur. Dywedodd y perchennog, Be, 'y mae wastad wedi bod yn bwysig i'r plant fod y tu allan gymaint â phosibl, ond gyda'r arweiniad diweddar, rwyf i am wneud yn siŵr ein bod yn creu amgylchedd lle bydd y plant eisiau bod y tu allan, a lle bydd y Gweithwyr Chwarae â'r hyder i ddod â'r plant i'r tu allan ym mhob tywydd.'





# Gogledd Cymru

## Diwrnod Chwarae gwahanol

Mae Diwrnod Chwarae Cenedlaethol bob tro'n ddiwrnod i'w gyhoeddi ar led, ond yn anffodus, oherwydd pandemig Covid-19, nod oedd modd i ni gymryd rhan yn y digwyddiadau arferol ym Mae Colwyn a Wrecsam; ni wnaeth hyn fodd bynnag ein rhwystro rhag cael hwyl a gwneud yn siŵr fod chwarae plant yn cael ei ddathlu.

Ar Ddydd Mercher Awst 5ed cymerodd holl aelodau Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs ran mewn gwneud a chuddio 200 o focsys chwarae ledled Cymru mewn helfa drysor raddfa-eang.

Cuddiodd staff Gogledd Cymru focsys ar draws y Gogledd, o Ruthun i Ynys Môn. Wedi'u cuddio, tynnodd y staff ffotograffau cliw o'r lle y gallai'r bocsys fod yn guddiedig a'u postio ar ein tudalen Facebook i bobl ddod o hyd iddynt.

Roedd y bocsys yn cynnwys cyfarwyddiadau, sialciau a syniadau ar sialcio, hadau blodau gwyllt y gellid eu plannu a digonedd o gardiau gweithgaredd dwyieithog yn llawn syniadau ar gyfer gweithgareddau a gemau y gallai'r plant gyfranogi ynddynt.

Roedd y diwrnod yn llwyddiant ysgubol, a chymaint o gymunedau'n cymryd rhan ac yn postio lluniau ohonynt eu hunain gyda'u bocsys a'u gwaith celf arbennig.

Efallai yr awn yn fwy fyth y flwyddyn nesaf! Ymunwch â'n tudalen Facebook i wneud yn siŵr na fyddwch fyth yn methu'r hwyl yn www.facebook.com/clybiau

## Clwb Newydd yng Nghonwy

Croeso cynnes i Kiddies Corner yn Llandudno, Meithrinfa Ddydd a redir yn breifat; y mae'n aelod newydd o Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs ac yn cynnig 16 o leoedd gofal plant yn y Clwb Allysgol. Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda chi.

### Angen cysylltu â ni?

Cewch gysylltu â Thîm Gogledd Cymru drwy ffonio: 01492 536318,
drwy ebost: info-nw@clybiauplantcymru.org
trwy'r post: 19, Princes Drive,
Bae Colwyn. LL29 8HT

## Diolch a chroeso'n ôl!

Hoffai tîm Gogledd Cymru estyn diolch mawr iawn i chi, yr holl glybiau sydd wedi parhau ar agor ac sydd wedi gweithio'n ddiflino dros weithwyr allweddol yn ystod Pandemig Covid. Doedd gan lawer o'n clybiau ddim dewis ond cau, a hoffem gynnig iddyn nhw groeso cynnes yn ôl a'u hatgoffa os oes angen unrhyw beth o gwbl arnynt, bod croeso iddynt gysylltu â'u Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant neu'r swyddfa ranbarthol ar 01492 536318 neu ebostiwch:

Cath: catherines@clybiauplantcymru.org Rachel: rachelt@clybiauplantcymru.org
Sandra: sandraw@clybiauplantcymru.org Swyddfa Ranbarthol: info-nw@clybiauplantcymru.



## Bydis y Cload yn chwarae'u ffordd drwy'r pandemig

Maen nhw'n dweud bod y cyfeillgarwch gorau bob tro'n cael eu ffurfio o dan yr amgylchiadau mwyaf anarferol, ac yn ystod y cyfnod clo fe welais gysylltiad arbennig iawn yn cael ei ffurfio rhwng fy merch fach i, Darcy, a merch o oed tebyg Beth, ar draws y ffordd.

Wrth i ni wrando ar y newyddion a chlywed ein bod wedi ein cyfyngu i'n gerddi am y tro, roedd Darcy ddim ond am chwarae y tu allan; byddai'n chwarae yn yr add gefn ar ei siglen neu chwarae pêl-droed gyda'i thad, a byddai bob tro am chwarae yn ein gardd ffrynt ar ei sgwter. Roedd yn chwarae allan yn yr ardd ffrynt pan wnaeth gyfarfod â ffrind newydd o'r tŷ ar draws y ffordd. Pan oeddwn i a'i thad yn gweithio yn y garej, gallem glywed sgwrs yn digwydd, "Beth yw dy enw di? Fyddet ti'n hoffi chwarae â mi?" Dyma'r lle wnaeth popeth ddechrau.

Fe wnaeth Beth a Darcy chwarae gyda'i gilydd bob yn ail ddydd dros y cyfnod clo, fe wnaeth y ddwy rasio ar eu beics a'u sgwteri ochr arall y ffordd i'w gilydd; fe wnaethant wisgo dillad ffansi a chwarae tywysogesau ar draws y ffordd, osod cadeiriau ar y pafin ar y naill ochr a'r llall lle gwnaethant chwarae â Barbies, doliau a llyfrau, er nad oeddent nhw erioed wedi cyfarfod yn iawn, na bod hyd yn oed ar yr un ochr o'r ffordd, roeddent yn ffurfio cyfeillgarwch mor hyfryd, ac, heb yn wybod iddynt eu hunain, yn dod â'i gilydd drwy wallgofrwydd y cyfnod clo.

Wrth i gymdogion basio heibio ar eu hymarfer dyddiol, fe wnaethant y sylw yn am ba mor hyfryd yr oedd i weld y merched yn chwarae mor dda â'i gilydd ac yn gadw i'w hochrau eu hunain i'r ffordd; wnaethon nhw fyth geisio crwydro i'r ochr arall.

Wrth i'r cyfyngiadau godi'n raddol, a dilyn y cyhoeddiad nad oedd yn rhaid i blant o dan 11 blwydd oed ymbellhau'n gymdeithasol bellach, unwyd Darcy a Beth o'r diwedd ac rydym wedi caniatáu iddynt chwarae ar yr un ochr i'r ffordd.

Gwnaeth uniad y merched ddod â deigryn i'n llygaid ni oll, wrth iddyn nhw rannu â'i gilydd y llawenydd ar eu hwynebau, eu cyffro a'u sgrechiadau.

Dwi'n meddwl ei bod hi'n deg dweud bod y merched wedi dod yn ffrindiau am oes, ac y bydd ganddynt atgofion am byth o sut y gwnaethant chwarae eu ffordd drwy'r cyfnod clo ar y ddwy ochr wahanol i'r ffordd.

# Croeso i aelod newydd, Ben's Adventure Club

Croeso cynnes iawn i'n haelod newydd yn Sir Ddinbych, sef Meithrinfa Tiny Tots, sy'n ymgorffori Big Ben's Adventure Club. Mae'r Clwb Antur Ben yn glwb Ôl-ysgol, Gwyliau a hefyd bore Sadwrn sy'n hynod boblogaidd.



Prif ffocws y Clwb Antur yw sicrhau bod pob plentyn yn cael y cyfle i chwarae, cael hwyl a mwynhau llawer o weithgareddau yn yr awyr agored. Boed yn wlyb, yn wyntog neu'n heulog, mae yno bob tro blant yn gwenu'n llawen yn y clwb. Yn ddiweddar maen nhw wedi bod yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau cyffrous a hwyliog dros yr haf, a'r cyfan yn gymorth i ddatblygu'r sgiliau sylfaenol y mae ar y plant eu hangen.

Maent wedi bod yn creu eu neidr Covid-19eu hunain i ddangos cefnogaeth i'r GIG, ac y mae yn awr wedi ei arddangos gyda balchder y tu allan i fynedfa'r Clwb Allysgol. Ers yn gynnar ym mis Mawrth mae'r plant wedi bod yn ddwys ynglŷn â phlannu, tyfu a gofalu am lu o lysiau ar eu hardal tyfu llysiau eang a luniwyd i'r pwrpas hwnnw. Mae'r rhieni'n synnu o glywed am fuddiannau gweithgaredd syml fel hwn, pethau megis ymarfer sgiliau locomotor, sgiliau rheoli'r corff a sgiliau rheoli gwrthrychau, ar wahân i fod yn weithgaredd corfforol gwych. Mae gan y clwb ogystal amryw o anifeiliaid, yn cynnwys cywion iâr, moch cwta a chwningod, ac yn rhan o weithgareddau dyddiol y plant maent ynglŷn â gofalu am yr anifeiliaid o ddydd i ddydd, yn cynnwys glanhau a charthu, bwydo a hefyd digon o gwtshis. Mae hyn yn helpu'r plant i gynyddu'u synnwyr o gyfrifoldeb. Mae'r staff yn aml yn annog y plant i feddwl y tu allan i'r bocs, a phan welsant yn ddiweddar fod ganddynt ormod o barau o wellingtons i'w storio'n dwt gyda'i gilydd dyma nhw'n cynnig syniad syml ond dyfeisgar iawn. Fe wnaethon nhw ddefnyddio hen baledau pren a oedd ganddynt ar y safle i greu dwy arddangosfan welis, a all ddal yn dwt 64 pâr o wellingtons, a hynny oll yn rhad ac am ddim!

Maen nhw hefyd yn gwneud defnydd ardderchog o'u yurt anferth sy'n 20 troedfedd o uchder a gall letya 20 o blant yn gyffyrddus ar y tu mewn. Mae yno hefyd gwrs rhwystrau, maes chwaraeon, tŷ coeden, llwybr gruffalo, gardd wyllt, llethr a llithr mawr, lle i adeiladu deniâu, lle celf a chrefft mawr a llawer mwy.

Ymhlith rhai dyfyniadau a ddaeth o'r plant y mae 'plîs ga i aros am byth' a 'dyma'r lle gorau, a'r mwya o hwyl yn y byd'.



Mae un adolygiad a adawyd gan riant yn ddiweddar yn darllen ...
*'Mae fy mab wedi dotio at y clwb antur ac yn siarad am ei ffrind gorau, Ben, drwy'r amser. Mae'r gwahaniaeth yn ei ymddygiad a'r ffordd y mae'n wirioneddol edrych ymlaen at chwarae y tu allan mynd yn fudr yn rhyfeddol i'w weld. Mae wrth ei fodd yn rhoi'r hanesion i ni am blannu hadau, adeiladu tanau a gofalu am yr anifeiliaid. Byddwn i'n argymell y clwb hwn i unrhyw un, yn enwedig y sawl sydd â phlant swil sydd angen ychydig o hwb i ddod allan o'u cragen.*

Clybiau Plant Cymru KIDS' CLUBS

## Trawsnewid i Gymhwyster Gofal Plant yng Ngogledd Cymru

Hoffai Swyddogion Hyfforddi Gogledd Cymru, Tracey a Cath, ddweud 'da iawn' yn wir i bob u nho'u dysgwyr, o Wynedd, Conwy ac Ynys Môn, sydd ar hyn o bryd yn ymgymryd â'r Dyfarniad Lefel 3 mewn Trawsnewid i Waith Chwarae (o'r Blynyddoedd Cynnar). Mae'r holl ddysgwyr wedi addasu'n dda i'r ffordd newydd o ddysgu yn dilyn pandemig Covid-19 ac yn haeddu clod am eu penderfyniad personol i ennill y cymhwyster yn ystod adeg mor ansicr. Mae'r holl ddysgwyr yn cynhyrchu gwaith ar lefel arbennig a sawl un ar eu ffordd i gwblhau'r cymhwyster. Da iawn, bob un ohonoch. Daliwch ati.

## Gwella llywodraethiad a chynaliadwyedd yng Ngogledd Cymru

*Yn gynnar yng Ngwanwyn 2020, ymwelodd Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant Gogledd Cymru â rheolwyr a staff Little Disciples. O ganlyniad i'r trafodaethau, cafodd y Clwb gefnogaeth cais cynaliadwyedd awdurdod lleol, cynllun busnes a gwybodaeth i gyfyngu ar atebolrwydd personol aelodau pwyllgor drwy ddod yn Sefydliad Corfforedig Elusennol (SCE). Dyfarnwyd y grant a bydd y gwaith sy'n dod yn ei flaen i symud at fod yn fodel SCE yn parhau.*

Mae cyfyngu'r atebolrwydd ariannol personol fel perchnogion cwmni/aelodau pwyllgor o'r pwys pennaf. Mae 2020 wedi bod yn amser pryderus i bob busnes, ac nid yw cwmnïau yswiriant bob tro wedi talu allan. Yn ychwanegol, bydd rhai arianwyr ddim ond yn dyfarnu grantiau i Leo-liadau sy'n gorfforedig (yn cael eu cydnabod fel corfforaeth yn ôl y gyfraith). Mae yn awr yn adeg dda i adolygu eich llywodraethiad gyda'n cefnogaeth ni, gan sicrhau bod perchnogion/aelodau pwyllgorau wedi eu diogelu'n ddigonol. P'un a ydych wedi eich rheoli'n breifat neu gan bwyllgor rheoli gwirfoddol, gallwch gyfyngu ar eich atebolrwydd personol drwy ddod yn gorfforedig (e.e. drwy gofrestru fel Sefydliad Corf-foredig Elusennol).

Cawsom adborth hyfryd o'n Gweminarau Rh-wydwaith a gyflenwyd yn gynharach eleni:

"Diolch! Mae'ch holl dempledi wedi bod yn ard-derchog! Wedi heno rwy'n teimlo'n hyderus ein bod wedi gwneud pob peth posibl i agor y Clwb Gwyliau'n llwyddiannus."

"Ga i ddweud pa mor ddefnyddiol y bu'r e-byst a anfonwyd atom, ynghyd â'r adnoddau a'r ar-weiniad a gawsom, gan CPCKC hyd yma; y cy-fan yn amhrisiadwy ...diolch i bawb."

"Dwi 'di cael eich tudalen FB yn werthfawr tu hwnt, diolch."

"Dim ond am ddiolch i chi a Clybiau am eich holl gefnogaeth. Roedd y weminar yn ddefnyddiol iawn ac yn llawn gwybodaeth!"

"Roedd y cyfarfod gweminar yn wych. Ry'ch chi'n gwneud gwaith arbennig. Rwy'n siŵr y by-ddai llawer ohonom ni ar goll heb gefnogaeth Clybiau yn ystod y Pandemig yma."

Cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant/Tîm Rhanbarthol os hoffech wybod mwy am y gefnogaeth sydd ar gael.

# De Ddwyrain Cymru



## Clwb Y Ddraig, Ystrad Mynach yn llwyddo i Gofrestru

Ym mis Chwefror 2020 cysylltodd Clwb lleol â Chlwb y Ddraig ynghylch cau eu Lleoliad; roedd hyn yn achos pryder gan fod nifer o rieni'n ddibynnol ar y gwasanaeth.

Meddai cynrychiolydd, "Fe wnaethom weithio'n agos gyda'r Lleoliad i'w gynnal yn Ystrad Mynach. Fe wnaethom agor ar Fawrth 24ain ac rydym newydd gwblhau cofrestru ar gyfer Clwb Ôl-ysgol a Chlwb Gwyliau. Roedd y broses gofrestru'n syml a hyd yn oed yn fwy felly gyda'r broses ymgeisio ar-lein newydd. Mae'r Clwb yn mynd o nerth i nerth.

Diolch i Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs a'r Blynyddoedd Cynnar,Caerffili am yr holl gefnogaeth."

Os hoffech chi wybod mwy am fanteision dod yn gofrestredig gydag Arolygiaeth Gofal Cymru a chefnogaeth barhaus gyda chofrestru, cysylltwch ag info@clybiauplantcymru.org

**Angen cysylltu â ni?**

Cewch gysylltu â Thîm De Ddwyrain Cymru
drwy ffonio: 029 2074 1000,
drwy ebost: info@clybiauplantcymru.org
trwy'r post: Tŷ'r Bont, Ffordd yr Orsaf,
Llanisien, Caerdydd. CF14 5UW

## Canolfan Plant a Theuluoedd Trinity



Fel y gwyddom mae buddiannau Chwarae'n bellgyrhaeddol; y mae'n ysfa naturiol, sylfaenol ac yn anhepgor i ddatblygiad Plant a Phobl Ifanc. Y mae hefyd yn hanfodol o ran cefnogi llesiant ac iechyd meddyliol, ffaith yr oedd Canolfan Gofal Plant a Theuluoedd ym Merthyr Tudful yn ymwybodol iawn ohoni pan wnaethant aros ar agor fel "Hyb Gofal Plant". Roedden nid yn unig yn darparu gofal o ansawdd i deuluoedd Gweithwyr Allweddol ond hefyd yn rhoi'r ffocws ar Chwarae er mwyn gwneud yn siŵr fod y plant yn cael profiad cyfoethogol i fwrdd o ofnau a straen y pandemig.

Mae'r Rheolwr, Tanya Stephens, wedi rhannu â ni sut y gwnaethant lwyddo i wneud hyn.

"Wrth edrych yn ôl ar yr ychydig fisoedd diwethaf rydym yn rhyfeddu wrth feddwl sut aethom drwyddi, ond dyna a wnaethon ni!

Cyn Mawrth 23rd a nifer o drafodaethau'n digwydd gyda'r Awdurdod Lleol, sefydliadau cefnogol, staff a rhieni, fe ddaethom i'r penderfyniad i aros ar agor fel 'hyb gofal plant'. I'n galluogi i wneud hyn fe wnaethom gynnal adolygiad o'r staff a'u hamgylchiadau unigol, gan fanteisio ar y cynllun saib swydd yn agos nifer ohonynt. Fe wnaethom adolygu ein polisïau a'n gweithdrefnau, cynllun yr adeilad a'r ystafelloedd chwarae, ac mewn partneriaeth â thîm blynyddoedd cynnar MTCBC a'r Awdurdod Lleol / Addysg, fe wnaethom nodi'r 'plant gweithwyr allweddol' a'r rhai a ystyrid yn 'hyglwyf'.



Roedd y gweinyddu, y cadw cofnodion a'r cyfathrebu dyddiol parthed y plant, ceisio dal i fyny â'r newidiadau, yr arweiniad a'r rheoliadau, ac wrth gwrs sicrhau diogelwch a llesiant y staff a'r plant, yn dipyn o dasg.

Cafwyd ymrwymiad o du'r staff, dealltwriaeth, diwydrwydd dyladwy o ran iechyd a diogelwch, glanhau egnïol drwy gydol y dydd yn ogystal â sicrhau bod y plant hynny'n teimlo'n ddiogel ac yn dawel eu meddwl. Fe wnaethom ddarparu gweithgareddau addas i bob oed, o gelf a chrefft i ddigwyddiadau chwaraeon, yn ogystal â chyfleoedd i blant siarad am eu teimladau a'u hemosiynau. Nid oedd pwysau ar 'dargedau' na 'gwaith ysgol' ond ar eu llesiant cyffredinol a chael hwyl!

Mae pawb wedi bod yn rhyfeddol, ac rydym yn falch iawn o'r tîm, y plant a'u teuluoedd.

'Diolch yn fawr iawn, iawn i chi oll am ofalu am ein bechgyn ardderchog mor dda; maen nhw'n dwlu dod atoch chi a ni fyddem ni'n gallu mynd i'r gwaith hebddoch chi, felly roeddwn i ddim ond am ddweud faint ry'n ni'n gwerthfawrogi beth ry'ch chi'n ei wneud!' Rhiant dau o blant sy'n weithiwr allweddol.

*'Da iawn ferched, ble fyddai Gweithwyr Allweddol hebddoch chi'.x.'* Gan fam/tad-cu.

*'Roedd yn codi ofn ar y dechrau, ond fe wnaethom ni gefnogi ein gilydd gan ddilyn yr arweiniad, ac fe ddaethom drwyddi.'* Aelod o'r staff

*'Da iawn Tanya, ry'ch chi a'ch tîm yn cael eich gwerthfawrogi nid yn unig gan rieni ond hefyd gan y gymuned gyfan. Cymerwch ofal a chadwch yn ddiogel xxx'* Aelod o'r gymuned

Fe wnaethom ddosbarthu medalau a thystysgrifau i rai oedd yn aros gartref a'r rhai a oedd yn dod i mewn atom ni, i ddweud wrthym ba mor falch yr oeddem ni ohonyn nhw oll.



## Ynghanol Pandemig Byd-eang, cyflawnwyd llawer i roi cychwyn ar bethau yn achos y Clwb newydd yma!



Mae Ysgol Bryn Derw yn ysgol arbennig a gynhelir gan yr Awdurdod Addysg lleol, ac sy'n addysgu plant a phobl ifanc,rhwng 4 a 19 blwydd oed, sydd ag Awtistiaeth ac anawsterau dysgu cysylltiedig. Mae'r ysgol wedi bod yn gefn i'r plant a'r bobl ifanc ers ei hagor ym Medi 2017 a bellach maent wedi cael eu harchwiliad cyntaf gan ESTYN, a chanlyniadau Rhagorol. Mae enw'r ysgol yn cyfieithu fel Oak Hill, felly pan penderfynodd y pwyllgor fynd am Ddarpariaeth Allysgol yn 2019, ganwyd 'Oak Hill ASD'.

Bu sawl her wrth weithio tuag at agor Lleoliad Gofal Plant Allysgol i fyfyrwyr a oedd yn mynychu Ysgol Bryn Derw. Fodd bynnag, er nad yw hwn yn Glwb prif ffrwd, maent yn fwy penderfynol nag erioed i sicrhau ei fod yn llwyddo. Dechreuodd llywodraethwyr yr ysgol i weithio gyda Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn 2019 pan oedd modd cael mynediad i ariannu lleoedd newydd mewn darpariaeth anghenion cymhleth yn Sir Casnewydd. Roedd hyn er mwyn darparu prosiect peilot a sefydlu'r galw o fewn ysgol am ddarpariaeth allysgol. A oedd angen? Roedd angen mawr! Yn asesiad digonolrwydd gofal plant Casnewydd yn 2017 tynnwyd sylw at y canlyniad, sef bod "Gofal Plant Ôl-ysgol a Gofal Plant Gwyliau yn gyfyngedig yn achos plant ag anghenion arbennig neu anabledd". O gasglu gwybodaeth drwy ddigwyddiadau ymgysylltu â rhieni, a holiaduron, sefydlwyd mai'r hyn yr oedd ei angen ar rieni oedd darpariaeth Wyliau. Yr adborth o'r rhieni oedd pan fyddai'r plant yn mynychu'r ysgol roedd modd i'r rheini fynd i'w gwaith a'u hymrwymiadau naill ben i'r diwrnod ysgol, ond yn ystod y gwyliau roeddent arnynt angen cael gofal plant a fyddai'n ateb eu hanghenion.

Mae nifer o Glybiau Gwyliau ar draws Casnewydd sydd yn gynhwysol ac â'r darpariaethau yn eu lle fel y gall pob plentyn gyrchu Gofal Plant Gwyliau. Ond mae gan y plant sy'n mynychu Ysgol Bryn Derw anghenion cymhleth ac roedd felly angen cefnogaeth ychwanegol ac arbenigol gan oedolion cyfarwydd a oedd yn adnabod y plant a'r bobl ifanc. Roedd hyn yn amlygu'r angen am staff cefnogi ychwanegol i fod wrth law i sicrhau diogelwch a llesiant y plant, a'u bod yn cael profiadau ysgogol fel y gallent fwynhau eu hamser yn y ddarpariaeth wyliau-ysgol. Roedd rhai o staff yr ysgol yn fodlon , cefnogi'r ddarpariaeth ond roedd angen i'r prosiect wneud yn sicr fod gan y Clwb gynllun tymor hir os oedd cyfnod treialu i fod.



Yna ym mis Mawrth 2020 yn ystod Pandemig Covid-19 Pandemig, rhoddodd Gwen Vaughan, llywodraethwr yr ysgol a Clare Dare, Clare Dare, Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs dros Gasnewydd, eu pennau at ei gilydd, a chyda help gweithgar fe gymerodd y cyfarfodydd ar-lein y weledigaeth yn ei blaen. Ar y gweithgor yr oedd mewnbwn eang o'r sector gofal plant a'r sector elusennol o ran cyngor a chefnogaeth. Yn aelod o'r grŵp, rhoddodd Geraldine Smallman o ysgol Trinity Fields yn Ystrad Mynach lawer o fewnwelediad i sut y bu i'w Clwb nhw gael ei sefydlu a'i redeg dros ychydig flynyddoedd. Dangosodd hyn weithio mewn partneriaeth ar raddfa eang, a chaglu profiadau a gwybodaeth oddi wrth eraill a fu drwy'r prosesau angenrheidiol ar gyfer sefydlu darpariaeth anghenion cymhleth.

Yn ystod sawl cyfarfod yr oedd cytundeb llethol na ddylai'r rhieni orfod talu costau ychwanegol i'w plentyn neu berson ifanc allu mynychu'r Clwb. Er mwyn ateb anghenion unigoly plant a'r bobl ifanc byddai mwy o angen am lefelau uwch o staff cefnogi. Byddai hyn yn ei dro yn gofyn am fwy o ariannu i alluogi'r Clwb i fod yn gwbl gynaliadwy, ac nid er elw. Dangoswyd hyder ag agwedd barod gan y gweithgor ac yn awr y mae pwyllgor wedi ei sefydlu, â'r Ysgrifennydd, Jane Weale, yn gyrru'r bwriad i ddod yn Sefydliad Corfforaethol Elusennol (SCE). Llwyddwyd i wneud hyn ym mis Awst, ac mae dod yn SCE wedi rhoi cyfle i'r pwyllgor wneud cais am ariannu fel sefydliad elusennol heb y risg o atebolrwydd ar ysgwyddau aelodau unigol o'r pwyllgor.



Mae eto ffordd hir i fynd, y camau nesaf fydd darparu wythnos dreialu ym mis Hydref ac yna gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru(AGC), ond mewn cyfnod byr o amser, ac yn ystod pandemig byd-eang mae gweledigaeth y Clwb hyd yn oed yn nes at ddod yn realiti. Fe'ch diweddarwn yn gyson, a gobeithio y bydd modd inni roi gwybodaeth bellach i chi ar y siwrnai tuag at Oak Hill ASD. Os oes gennych ddiddordeb mewn gweithio yn y Clwb, cysylltwch â Clare Dare, y Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant dros Gasnewydd.



# Hyfforddiant

## Amser, Lle a Chaniatâd i Chwarae

Mae Erthygl 31 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (y UNCRC) yn rhoi hawl i BOB plentyn i gael gorffwys a hamdden a'r gallu i gyfrannu'n rhydd mewn **chwarae** a gweithgareddau hamdden. Yn 2013, wrth roi sylw i bryderon ynghylch pa mor wael yr oedd Llywodraethau wedi ymateb a chydnabod yr hawl hwn, luniodd pwyllgor yr UNCRC y sylw, General Comment 17. Nod y sylw cyffredinol hwn oedd cryfhau a gwella'r ddealltwriaeth o'r hawl hon, a'r pwysigrwydd a'r angen am gydnabod a darparu ar gyfer yr hawl hwn, yr hawl i blentyn i gyrchu'n rhydd chwarae, difyrrwch, hamdden, gorffwys, hamdden, celf a diwylliant.

Yn ôl y Sylw Cyffredinol yr oedd yn rheidrwydd ar Lywodraethau i **barchu, diogelu** a **bodloni**'r hawliau a enwir yn Erthygl 31. Ceir hyd i grynodeb o Sylw Cyffredinol 17 ar wefan yr IPA, International Play Association website.

*“Mae'r IPA yn credu bod yr hawliau a ymgorfforir gan Erthygl 31 yn ganolog i blentyndod ei hun: maent yn cyfrannu at y llawenydd, yr hwyl a'r pleser pur o dyfu. Ymhellach, bydd eu rhoi ar waith yn cyfrannu at ddatblygiad plant, nid yn unig fel unigolion ond hefyd fel aelodau o gymdeithas sydd â'r gallu i fod yn ymwybodol o safbwyntiau pobl eraill, ac sy'n gallu cydweithredu a datrys gwrthdaro. “Mae erthygl 31 yn cyfrannu at ddatblygiad cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd y gymdeithas gyfan. Nid hawl sylfaenol pob plentyn yn unig mo'r hawl i chwarae, i ddifyrrwch, gorffwys hamdden ac i gyfrannu mewn bywyd diwylliannol a chelfyddydol; yn hytrach bydd sylweddoli hyn yn dwyn buddiannau sylweddol i'r unigolyn a'r gymdeithas. Mae'r IPA yn galw ar bob Llywodraeth i ymgymryd â'u cyfrifoldebau, y manylir arnynt yn y Sylw Cyffredinol hwn.”* http://www.ipaworld.org Mehefin 2013

Yn ogystal, fe wnaeth Sylw Cyffredinol 17 gydnabod a thynnu sylw at yr angen hollbwysig i blant dderbyn yr **amser**, y **lle** a'r **caniatâd** i chwarae. Felly sut allwn ni, fel Clybiau Gofal Plant Allysgol, a'r Egwyddorion Gwaith Chwarae a'r UNCRC yn ein tanategu, i sicrhau ein bod yn gwneud hyn er mwyn rhoi i blant y cyfleoedd gorau, a hefyd sicrhau ein bod yn ateb anghenion a hawliau plant?

**Amser:** mae ar blant angen AMSER i fod chwarae, gorffwys, a bod ynglŷn â gweithgareddau hamdden a diwylliannol. Y mae 120 o oriau mewn wythnos waith Llun-Gwener; mae plentyn yn effro am 75 awr o'r wythnos honno, ac yn ystod y tymor mae addysg ffurfiol yn cymryd 25-30 o'r oriau hynny. Mae hyn yn gadael tua 45 awr mewn wythnos yn weddill i'r plant. Os yw plant yn mynychu Clwb Gofal Plant Allysgol neu Glwb Brecwast, mae hyn yn gyfran fawr o'u hamser, efallai 20 awr o['r wythnos. Mae hyn yn rhan enfawr o fywydau plant ac mae angen i ni wneud yn sicr ein bod yn rhoi iddynt ddigonedd o gyfle i chwarae yn ystod yr amser y maent yn mynychu Clybiau Gofal Plant Allysgol. Er enghraifft, gallai hyn olygu eich bod yn gorfod ystyried sut a pha bryd y byddwch yn darparu byrbrydau. A ydynt yn cael eu darparu ar amser hyblyg i gyd-fynd ag angen y plentyn neu a ydynt ar adegau wedi eu pennu gan oedolion? A ydynt yn tarfu ar eu chwarae? Ystyriwch faint o amser y gall y plant mewn gwirionedd ei dreulio'n chwarae yn eich Lleoliad. Sut ydych chi'n eiriol dros chwarae plant sydd wedi ei ddewis yn rhydd, a'i hunan-gyfarwyddo, pan nad ydynt gyda chi?

**Lle:** yn awr yn fwy nag erioed mae'r defnydd o'r tu allan yn eich Clwb Allysgol yn hanfodol ganfod y cyfle i blant allu chwarae yn y byd naturiol yn hynod bwysig. Ystyriwch pa fannau allanol sydd ar gael i blant gael mynediad iddynt, a sut y gallwch wneud y gorau o'r man hwn fel y gellir ei gyrchu ym mhob tywydd, pob tywydd, a ph'un a yw'n olau dydd, yn tywyllu neu'n dywyll y tu allan. Mae ar blant angen lle i ffwrdd o drefn a rheolaeth oedolion, lle y gallant reoli eu chwarae a'u dewisiadau. Fel Gweithwyr Chwarae mae angen i ni ddal gafael ar fannau chwarae plant, a'u diogelu, a dylai oedolion sy'n bresennol yn y lle hwnnw fod yno i wneud y gorau ohono, i gefnogi a hwyluso cyfleoedd i chwarae, cofio mai eu hamser chwarae nhw yw hyn ac mai nhw a ddylai reoli'r lle.

**Caniatâd:** Y mae'n bwysig iawn ein bod yn caniatáu i blant chwarae; mae angen iddynt wybod bod ganddynt y lle, yr amser a'r caniatâd i chwarae, yn y ffordd, ar yr amser ac yn y lle o'u dewis. Dylai plant deimlo'n hyderus i chwarae'n rhydd mewn unrhyw Leoliad Gwaith Chwarae, i addasu'r amgylchedd, cyrchu a symud yr adnoddau o gwmpas, a theimlo fel petai'r lle'n wirioneddol berthyn iddyn nhw. Nid yw caniatâd bob tro'n golygu rhoi caniatâd geiriol i chwarae, gallai fod yn gysylltiedig â'r ffordd yr ŷm ni, fel Gweithwyr Chwarae, yn rhyngweithio yn y Lleoliad. Gall darparu amgylchedd cyfoethog, cynhwysol a chroesawgar i bob plentyn, lle y gallant chwarae ynddo, a bod ag agweddau cadarnhaol tuag at yr holl blant a phobl ifanc, roi caniatâd i chwarae.

Y pedair Cyfundrefn Chwarae Genedlaethol sy'n cynrychioli'r Wlad yn y DU yw Chware Cymru, Play Scotland, Play England a PlayBoard Northern Ireland. Mae pob un wedi ymrwymo i ddathlu, a bod yn eiriolwyr, hawl plant i chwarae. Mae Chwarae Cymru am weld newid mewn polisi a rhoi caniatadau i blant chwarae a'n bod yn gwerthfawrogi chwarae fel Gwlad. Mae Play England am weld byd lle rhoddir gwerth ar blant a lle y rhoddir iddynt rym a braint, fel y gwelir ar @PromiseScot. Mae PlayBoard NI am fod yn eiriolwr chwarae a gweld degawd newydd fel agwedd newydd. Ond mae angen i ni fod yn hyn gyda'n gilydd; felly beth fydd eich addewid chi o ran hawliau plant? Sut fyddwch chi'n eiriol dros hawl plant i chwarae, ac yn dathlu hynny?

## Mannau Chwarae

Mae pedwar prif le lle y gall plant a phobl ifanc chwarae. Y rhain yw:-

**Man Materol** - Mae'r man hwn yn bwysig ym mywyd plentyn, gan ei fod yn eu galluogi i gael cyfleoedd i redeg, dringo, neidio, llithro, reslo, sigo, dawnsio a defnyddio sgiliau motor manwl; y mae hefyd yn gyfle i gyfarfod a chymdeithasu gyda ffrindiau, i gynyddu eu hunanymwybyddiaeth, eu hunan-dyb a'u hunan-werth. Bydd lle chwarae materol, da yn rhoi cyfle i'r plant addasu a thrin yr amgylchedd i gyd-fynd ag anghenion a hoffterau'r plant; bydd hyn yn eu cadw'n gorfforol weithiol, gan arwain at iechyd meddyliol cadarnhaol a ffordd iach o fyw, a gyda nhw hyd iddynt dyfu'n oedolion.

**Man Chwarae Dros Dro** - Gellir symud y mannau chwarae hyn, eu haddasu neu eu hailffurfio. Gallent gynnwys sawl adeiladwaith mawr neu rai bychain, symudol, hefyd defnyddiau adnoddau a phrops mewn man chwarae parhaol ar gyfer rhannu'r ardal yn fannau chwarae gwahanol a dros dro. Gallai'r plant greu amrywiaeth o ardaloedd chwarae drwy ddefnyddio eu dychymyg; gallent fod yn ddeniau gan ddefnyddio ffabrigau, newid y gornel gartref yn siop, swyddfa'r post neu hyd yn oed ysbyty. Gellir symud y dodrefn i wneud lle i gêm arall neu ddefnyddio'r props i greu cwtsh cuddio. Gallai lle dros dro fod yn ardal fechan y tu ôl i soffa, neu'n faint maes pêl-droed, sydd â phrops a rhannau rhydd amrywiol arno.

**Man Chwarae Affeithiol** – Mae'r mannau hyn yn rhoi sylw i hwyliau, teimladau, awyrgylch a'r synhwyrau – (cyffyrddiad, arogl, golwg, clyw a blas). Gallent gynnig llonyddwch neu anhrefn a chyffro. Hefyd, ddefnyddiau neu brops sy'n ysgogi mynegi, profi neu arbrofi â rhychwant eang o emosiynau. Rhai o'r adnoddau, a phrops, ymhlith eraill, y gellid eu cynnig fyddai cerdd, canhwyllau, defnyddiau ffabrig, tortshis a rhannau rhydd. Dyma lle y gall y Gweithiwr chwarae hwyluso awyrgylch gyffredinol o groeso, derbyniad, rhyddid a chwaraegarwch.

**Man Chwarae Parhaol** – Mae'r mannau hyn yn rhai sefydlog er mwyn cefnogi chwarae plant. Er enghraifft, y gegin, ffrâm ddringo, llawr concrit a'r Lleoliad ei hun. Gallai'r mannau parhaol hyn ymgorffori mannau eraill yn ogystal; y llawr yn fan i adeiladu den(dros dro), y ffrâm ddringo'n lle i chwarae tag oddi ar y llawr (Corfforol) a'r Lleoliad yn fan sy'n cynnig amrywiaeth o rannau rhydd sy'n rhoi lle i newid ac addasiad (Affeithiol). Dangosir yma felly y gall Lleoliad chwarae parhaol, o'i ystyried yn fanwl, gynnig yr holl leoedd Chwarae. Bydd rhoi cyfle i blant gyrchu mannau chwarae lle gallant chwarae allan eu hanghenion a'u hoffterau yn cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant, eu hunan-dyb a'u hymddygiad gwybyddol, ac yn meithrin gwydnwch.





# Pwysigrwydd Chwarae

Bydd plant yn chwarae mewn amgylchedd nad yw'n eu hatal rhag bod yn rhydd, nad oes ynddo sefyllfaoedd sy'n peri ofn na gwrthdaro, a lle nad oes pwysau amgylcheddol (poethder, oerni) na seicolegol (newyn, syched), a bydd plant fel arfer ar eu gorau'n chwarae lle nad oes unrhyw oedolion o gwmpas. Gallai ffactorau amgylcheddol a chymdeithasol yn ogystal effeithio ar chwarae, gall plant fod yn byw mewn dinas goncrit, mewn teulu sy'n brin o faeth.

Mae chwarae mor bwysig i blentyn, gan ei fod yn atgyfnerthu eu datblygiad. Os yw plentyn/person ifanc yn cael y cyfle i chwarae mewn amrywiaeth o amgylcheddau chwarae, a'r amgylched arbennig yn gyfoethog, hyblyg ac â'r cyfle i'r plentyn gyrchu'r 16 Math o chwarae, bydd hyn yn arwain at y plentyn/person ifanc yn dod yn fwy gwydn, ac at gynnydd yn eu hunan-dyb a'u hunanhyder. Bydd gan y plentyn/person ifanc fwy o ddealltwriaeth a hyder i ddatrys problemau ac i allu cymdeithasu gydag eraill â hyder. Os nad yw'r amgylchedd yn cynnig cyfleodd i'r plentyn/person ifanc i gyrchu'r 16 Math o Chwarae yn llawn, neu os bennir nad oes lle diogel i'r plentyn chwarae, gallai hyn arwain at amddifadedd ymysg plant.

Yn y gymdeithas heddiw mae plant yn cael llai a llai o chwarae wedi ei hunan-gyfarwyddo a mwy o weithgareddau wedi eu trefnu. Dwi'n cofio, fel plentyn nad oedd gen i bryderon na phwysau yn fy mywyd; roedd gen i ddau beth i'w wneud, mynd i'r ysgol a mynd mas i chwarae, ac roedd llai o bwysau o ran cyraeddiadau academaidd; yn anaml iawn y byddem yn chwarae y tu mewn a byddem yn asesu'r risg o ran gweithgareddau a sefyllfaoedd drosom ein hunain. Byddem yn aml yn chwarae mewn grwpiau a oedd yn cynnwys pob oed a gallu; roedd gennym gyfrifoldebau a oedd yn cynnwys mynd tuag adref cyn gynted ag y byddai goleuadau'r stryd yn dod ymlaen a gofalu am eich brodyr/chwiorydd neu'r plant iau yn eich ardal/stryd. Roeddem yn chwarae drwy'r penwythnos, yn mynd ar antur, adeiladu deniau, siglenni coeden, ac yn chwarae yn yr afon yn adeiladu cychod; weithiau doedd eich rhieni ddim yn gwybod lle'r oeddech, ac yn amlach na pheidio roedd hyn yn beth da.

Heddiw yn aml mae'n well gan rieni bod eu plant yn aros gartref yn chwarae ar y consol. Mae hyn yn ynysu'r plentyn a chan ei fod yn “saffach” y canlyniad yw na fu cyfle i'r plentyn gyfathrebu, datrys problemau, delio â lefel isel o wrthdaro nac asesu risg; ni fydd y plentyn mor wydn a bydd yn dioddef o amddifadedd chwarae. Fy mhryder i yw bod cymaint o bwysau ar blentyn i gyflawni yn academaidd, i gal y dillad “iawn”, i fod yn “addas” i'w cymdeithas, ac mae'r pwysau o gyfeiriad y cyfryngau cymdeithasol yn llywodraethu eu bywyd. Mae plant heddiw'n amddifad o'r chwarae y gwnaeth fy nghyfnod i, neu genedlaethau cyn hyn yn eu profi, a theimlaf y gallai hyn gael effaith andwyol ar eu hiechyd meddyliol a'u llesiant. Ni allaf ddechrau dychmygu beth fydd effaith “Covid-19” ar y genhedlaeth nesaf. O'i herwydd, dywedir wrthym am gadw pellter o 2 fetr oddi wrth ein gilydd, a bod yn rhaid i ni aros gartref; dim ond ychydig wythnosau yn ôl gallem ymarfer ein cyrff ddim ond ddwywaith y dydd gydag aelodau o'ch cartref, heb gysylltiad corfforol â ffrindiau; dim ond dros y ffôn, y cyfryngau cymdeithasol neu ar-lein y gallem gyfathrebu. Doedd dim modd i blant fynd i'r ysgol am 4 mis ac felly bu pobl ifanc heb fynediad at y 16 math o chwarae. Hyd yn oed wedi llacio'r cyfnod clo, rydym yn dal i ddisgwyl i blant/pobl ifanc i chwarae bellter oddi wrth ei gilydd, a dim ond mewn “swigod” y gallant wneud hynny.

Mae'r damcaniaethwr Bob Hughes wedi adnabod 16 gwahanol fath o chwarae; dyma esboniad cryno o bob math a pham y maen nhw'n bodoli.

1. Chwarae symbolaidd – dyma pan fydd plentyn yn defnyddio gwrthrych i gael mynediad at brofiadau sy'n bwysig iddynt, neu arbrofi â nhw'n raddol heb y risg o fynd y tu hwnt i'w dealltwriaeth. Enghraifft o hyn fyddai plentyn yn eistedd ar fainc, y fainc yn cynrychioli ceffyl, gan eu bod mewn gwirionedd yn ofni ceffylau. Neu gall fod yn baentio baner ar eich wyneb.

2. Chwarae garw – Gallai hyn fod yn chwarae sy'n cynnwys cyswllt corfforol neu agos. Enghraifft o hyn fyddai dau o blant yn chwarae ymladd â'i gilydd, neu brofi eu cryfderau drwy reslo braich.

3. Chwarae cymdeithasol-ddramatig - dyma pan fydd plentyn yn efelychu profiadau real neu bosibl bywyd gyda phlentyn arall i wneud synnwyr o'r byd. Byddant yn gwneud hyn drwy weithredoedd, neu sut y byddant yn siarad. Enghraifft o hyn fyddai bod mewn amgylchedd ysgol, bod yn athro'n gweiddi ar y plant neu chwarae tŷ.

4. Chwarae cymdeithasol – Mae hyn yn galluogi plant/pobl ifanc i gyrchu gwybodaeth ynghylch y ffordd y mae oedolion/grwpiau'n adweithio mewn sefyllfaoedd amrywiol. Byddai gan y profiadau hyn reolau o fewn y gêm; byddai'n plant yn sefydlu cytundebau grŵp, y gellid eu diwygio drwy gydol y gêm. Enghraifft o hyn fyddai grŵp o blant yn chwarae pêl-droed neu'n adeiladu den gyda'i gilydd.

5. Chwarae creadigol - Dyma chwarae sy'n helpu datblygu angen y plant o ran hunanfynegiant a sgiliau llaw. Mae'n bwysig i ni fod â'r amynedd a'r gallu i ymdopi â newidiadau nas gellir eu rhagweld. Enghraifft o hyn fyddai plentyn yn defnyddio unrhyw gyfrwng o hunanfynegiant, neu ddefnyddio rhannau rhydd i greu unrhyw beth y dymunant.

6. Chwarae cyfathrebol - Dyma pan fydd plentyn yn defnyddio'i lais, mynegiant ei wyneb, cyffyrddiad neu ystum i ymestyn eu sgiliau cyfathrebu. Enghraifft o hyn y pan fydd plant yn eistedd i lawr i ddweud jôcs, dweud storïau neu ddadlau, neu hyd yn oed drwy siarad yn 'slang gyfrin' neu 'slang stryd'.

7. Chwarae Dramatig - Dyma pan fydd plant yn dramateiddio senario neu ddigwyddiad ac yn rhoi iddyn nhw eu hunain rôl y mae'n rhaid iddyn nhw ei actio. Er enghraifft, plentyn yn esgus bod yn berson enwog fel rhan o ddrama, bod yn rhan o briodas neu hyd yn oed angladd.

8. Chwarae Locomotor - Dyma pan fydd y plentyn sy'n chwarae yn symud. Dylai'r amgylchedd gynnig cyfle i'r plentyn/person ifanc i symud ym mhob cyfeiriad i fyny ac i lawr, i'r ochr ac ar gyflymder. Enghraifft o hyn fyddai plant yn chwarae 'cwato a ffeindio'. Dwy'r plant ddim mewn un lle, maen nhw'n symud o gwmpas drwy'r adeg, gallent guddio mewn nifer o lefydd. Gallai hefyd fod yn chwarae 'tag'.

9. Chwarae Dwfn - Dyma pan fydd plant/pobl ifanc yn credu bod sefyllfa chwarae'n cynnwys gormod o risg iddyn nhw. Ofn neilltuoli unigolyn yw hwn, ac ni fyddai hyn efallai'n chwarae dwfn yn achos plentyn arall. Enghraifft o hyn yw plentyn yn reidio beic heb sefydlogwyr neu blentyn yn dringo i ben y ffrâm ddringo.

10. Chwarae Ymchwiliadol - Dyma pan fydd plentyn yn chwilfrydig ('beth os?' a 'sgwn i pam?') ac yn gallu defnyddio ei synhwyrau i edrych o gwmpas yr ardal y maent ynddi. Gall hyn ddigwydd ar sawl lefel gorfforol a seicolegol a dylai amgylcheddau chwarae sicrhau bod gan blant yr adnoddau i allu ymgysylltu. Enghraifft o hyn fyddai plant yn archwilio i dân neu'n palu.

11. Chwarae Ffantasïol – Dyma pan fydd plant yn defnyddio'u dychymyg i greu pethau afreal yn eu chwarae. Yn y math yma o chwarae nid yw'r digwyddiadau'n perthyn i realiti. Enghraifft o hyn yw plentyn yn cymryd rôl tywysoges o ffilm Disney, neu ddraig.

12. Chwarae Dychmygol - Dyma lle nad yw realiti'n berthnasol o gwbl a bydd pethau na allai ddigwydd o gwbl mewn bywyd real yn digwydd yn y gêm. Enghraifft o hyn fyddai grŵp o blant yn defnyddio ffyn fel y Cleddyfau Golau yn Star Wars neu'n chwarae gyda ffrind dychmygol.

13. Chwarae Meistrolaeth - Dyma pan fydd gan y plant reolaeth o'r amgylchedd materol o'u cwmpas. Enghraifft o hyn fyddai plant yn gwneud deniau o'r blancedi a'r byrddau sydd o'u cwmpas, neu'n adeiladu argae mewn afon.

14. Chwarae Gwrthrych- Dyma pan fydd plentyn yn creu cadwyn o symudiadau gan ddefnyddio cydlyniad llaw/llygad, un ar ôl y llall. Enghraifft o hyn fyddai plentyn yn chwarae ar ffôn symudol.

15. Chwarae Rôl - Dyma pan fydd plentyn yn actio rhywbeth y maen nhw wedi ei weld, wedi darllen amdano neu ei brofi. Dyma blentyn yn gwneud synnwyr o'r byd o'u cwmpas. Enghraifft o hyn byddai plentyn yn dynwared ei fam ei hun. Neu efallai fod ar y ffôn neu dacluso.

16. Chwarae sy'n Atgrynhoi - Gallai hyn fod pan fydd plentyn yn gallu archwilio i hanes, storïau, defodau a rhigymau. Enghraifft o hyn fyddai plentyn sydd wedi darllen neu wylio ffilm hanesyddol, sydd yna'n gwisgo fel cymeriad o'r oes honno, gan chwarae'i ran.

# Hyfforddiant

## Pwysigrwydd amser chwarae i oedolion



Mae buddiannau chwarae i blant wedi ei gydnabod ers degawdau, wedi'r cyfan Albert Einstein a ddywedodd mai 'Chwarae yw'r ffurf uchaf ar ymchwil'.

Mae chwarae i oedolion yn awr yn cael ei chydnabod yn ffordd o wella ansawdd bywyd oedolyn. Mae'r athro mewn seicoleg, Peter Gray, yn dweud bod chwarae fel oedolion yn dda ar gyfer gostwng lefelau straen; y mae'n rhyddhau enforffinau sy'n hybu llesiant, a phrofwyd yn ogystal eu bod yn lleddfu poen.

Gwelwyd bod chwarae oedolion yn gwella'r ffordd mae'r ymennydd yn gweithio, yn atal colli cof ac yn cadw iselder ar bellter. Mae chwarae'n ysgogi'r ymennydd ac mae gan fwy a mwy o gwmnïau, megis Google, ardaloedd chwarae er mwyn annog eu gweithwyr i chwarae, sy'n hyrwyddo cydweithio ac yn meithrin ysbryd tîm.

Mae'r sefydliad cenedlaethol dros chwarae, The National Institute for Play, yn galw chwarae yn borth tuag at fywiogrwydd. Y mae'n mynd ati i hybu Neoteny, gwarchod ieuenctid mewn oedolion. Chwarae yw'r ffurf weithiol ar ymwybod meddylgar(mindfulness), sef bod yn bresennol yn y foment, cymryd amser o'ch bywyd bob dydd. Mae ymchwil therapiwtig yn profi y gall gyflymu dysgu, cynyddu cynhyrchiant, a chreu perthnasoedd a chyfathrebu closiach.

Mae'n hysbys bod David Beckham yn chwarae â darnau Lego i reoli straen. Roedd yn hysbys hefyd bod David Cameron yn arfer chwarae angry birds; felly beth sy'n eich rhwystro chi?

Os oes angen ambell i syniad arnoch, dewiswch hobi rydych yn ei fwynhau; rhowch amser i'ch diddordebau, gwnewch rywbeth hwyliog gydag eraill; gallai fod mor syml â chael cwpanaid o goffi gyda ffrindiau neu ymweld â pharc; cael rhywfaint o hwyl, dyna'i gyd.

# UNCRC

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn 1989(UNCRC) yn gytuniad iawnderau dynol, sy'n rhoi i bob plentyn a pherson ifanc o dan 18 mlwydd oed set gynhwysfawr o hawliau. Cadarnhaodd y Deyrnas Unedig y Confensiwn ar Ragfyr 16 1991.

Yn 2004, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru yn ffurfiol mai'r UNCRC a fyddai'r sylfaen llunio polisi a strategaeth berthnasol i blant a phobl ifanc. Dangosodd hyn ymroddiad LlC i sicrhau y byddai hawliau plant yn cael eu rhoi ar waith drwy Gymru gyfan, ac y byddai pob plentyn yn ddiogel, wedi ei amddiffyn, yn gallu datblygu i'w llawn botensial, ac yn gallu cyfrannu a bod yn rhan o weithgareddau cymdeithasol a fydd yn hyrwyddo a chefnogi eu datblygiad iach a'u llesiant.

Mae LlC yn cydnabod bod ganddynt ddyletswydd i ystyried unrhyw effaith a gaiff newidiadau mewn polisi ar hawliau plant; rhaid iddynt ystyried o ddifrif safbwyntiau a barn plant a phobl ifanc, a gweithredu i ddwyn y budd gorau iddynt. Bydd polisïau pob Lleoliad chwarae wedi eu llunio ar sail deddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau LlC, ac yn cael eu haddasu yn ôl y sefydliadau unigol.

Mae i'r Confensiwn gyfanswm o 54 erthygl. Mae Erthyglau 1-42 yn cyfeirio at hawliau plant ac Erthyglau 43-54 yn nodi'n benodol gyfrifoldeb rhieni, awdurdodau lleol a LlC i sicrhau bod plant yn cael eu hawliau. Ymhlith yr Erthyglau sy'n arbennig o berthnasol i chwarae a Lleoliadau plant y mae …

**ERTHYGL 2**
Mae'r Confensiwn yma'n berthnasol i bawb, beth bynnag y bo'u hil, eu crefydd, galluoedd, beth bynnag maen nhw'n ei feddwl neu'n ei ddweud, pa fath bynnag o deulu y maent yn dod ohono.

**ERTHYGL 12**
Mae gan blant yr hawl i ddweud beth yn eu barn nhw a ddylai ddigwydd, a chael eu cymryd o ddifrif, pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw; hefyd i dderbyn ystyriaeth o'u barn.

**ERTHYGL 5**
Mae gan blant yr hawl i gyfarfod â'i gilydd gyda'u ffrindiau ac i ymuno mewn Clybiau, grwpiau a sefydliadau.

**ERTHYGL 19**
Dylai Llywodraethau sicrhau bod plant yn derbyn y gofal cywir ac yn cael eu diogelu rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan unrhyw un arall sy'n gofalu amdanynt.

**ERTHYGL 23**
Dylai plant sydd ag unrhyw fath o anabledd dderbyn gofal a chefnogaeth arbennig fel y gallant arwain bywydau llawn ac annibynnol.

**ERTHYGL 31**
Mae gan bob plentyn yr hawl i ymlacio a chwarae,ac i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau.



Erthygl 31 yw un o'r rhai pwysicaf o ran rôl y Gweithiwr Chwarae. Rhaid i ni ymdrechu i gynnig darpariaeth chwarae o ansawdd, lle mae modd i blant fod ynglŷn â chwarae a ddewisir yn rhydd ac a hunan-gyfarwyddir, chwarae sy'n cyfrannu at eu datblygiad a llesiant iach a chyfannol. Yn 2013 cadarnhaodd Sylw Cyffredinol (General Comment) Rhif 17 yr UNCRC bwysigrwydd chwarae yn y gymuned, gan ddatgan ei bod yn hanfodol fod cyfleoedd da i chwarae, gorffwys a hamdden, bywyd diwylliannol a'r celfyddydau o fewn cyrraedd plant. Roedd yn ategu at Erthygl 31 er mwyn cynnwys hyrwyddo a darparu cyfleoedd chwarae perthynol i oed, chwaraeon, hanes, pensaernïaeth a gweithgareddau diwylliannol sy'n hybu treftadaeth plentyn.

Mae'r Hawliau Plant (UNCRC) yn ddiamod ac yn absoliwt; mae pob plentyn yng Nghymru a gweddill o'r Byd â hawl i'r rhain. Rhaid i ni fel Gweithwyr Chwarae sicrhau bod yr holl blant yn ein Lleoliadau'n cael eu Hawliau; fe wnawn hyn drwy … greu lle chwarae sy'n gyfeillgar ac yn groesawgar; a lle bydd y plant yn teimlo wedi'u hamddiffyn, ac yn ddiogel. Rydym yn darparu amgylchedd chwarae sydd yn anfeirniadol, ac yn gwbl gynhwysol; ac rydym yn gweithredu mewn ffordd garedig, barchus a lle caiff eraill eu derbyn. Gwnawn ein gorau glas i sicrhau bod hawliau plant yn cael eu cydnabod - a'u cynnig iddynt; ac rydym yn eiriol dros eu hawliau drwy hyrwyddo, cefnogi a darparu ar gyfer chwarae - yn ein Lleoliadau ac allan yn y gymuned. Gallwch weld crynodeb o'r holl hawliau plant yma...

https://downloads.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2019/10/UNCRC_summary-1_1.pdf?_adal_sd=www.unicef.org.uk.1597226548299&_adal_



## Beth am gael rhieni i siarad am chwarae

Fel Gweithwyr Chwarae y mae'n bwysig ein bod yn hyrwyddo chwarae yn ôl yr hyn a amlinellir yn yr Egwyddorion Gwaith Chwarae. Nid darparu cyfleoedd chwarae digolledon ar gyfer plant yw unig rôl y Gweithiwr Chwarae; maent hefyd i fod yn llais sy'n annog ac yn hybu rhoi i blant gyfleoedd chwarae a ddewisir yn rhydd. Yn sicr clywir sôn am rieni'n gwneud sylwadau am staff yn sefyllian o gwmpas wrth i'w plant redeg o gwmpas ar y cael; dyma gyfle da iawn i'r Gweithiwr Chwarae esbonio'r hyn y mae'r plant yn ei ennill o gael y rhyddid i ymchwilio i'w syniadau a'u diddordebau eu hunain.

Yn 2014 cynhaliodd Alexandra Long waith ymchwil gyda phlant ym Mhowys yn dilyn adroddiad arolwg ar ddigonolrwydd chwarae a gynhaliwyd yn 2012; dangosodd hyn ddwy gymuned nesaf at ei gilydd, a mynediad tebyg i adnoddau lleol, yn adrodd ar lefelau amrywiol o foddhad o ran cyfleoedd chwarae. Yr hyn a oedd yn ddiddorol oedd bod yr ymchwil yn dangos nad oedd mwy mewn gwirionedd yn golygu mwy. Roedd y ddwy ardal a oedd â gwahanol lefelau o fodlonrwydd o ran chwarae hefyd o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd gwahanol. Gwelwyd bod y plant a oedd yn byw yn yr ardal lle ceid lefel uwch o amddifadedd yn fwy bodlon ar eu cyfleoedd chwarae. Wrth archwilio'r ddau wahanol brofiad, roedd gan y plant lleiaf amddifad fwy o adnoddau a chyfleoedd am weithgareddau, ond llai o ryddid i chwilota i'w hoffterau chwarae eu hunain. Roedd y plant â'r anfantais cymdeithasol/economaidd fwyaf yn cael lefelau uwch o ryddid, a gwelwyd eu bod yn gallu chwarae yn y stryd a'r parciau gerllaw iddynt, i ffwrdd o oedolion a fyddai efallai'n ceisio arwain eu hagendau chwarae. Adroddwyd hefyd fod rhieni yn yr ardal fwyaf ariannog yn mynegi lefelau uwch o anniddigrwydd ynghylch y lefel o ryddid yr oeddent yn ei rhoi i'w plentyn, oherwydd yr ofn y byddent yn dod i niwed tra byddent i ffwrdd oddi wrthynt.

Mae osgoi risg yn rhywbeth y mae angen i Weithwyr Chwarae fod yn ymwybodol ohono, ynghyd â phwysigrwydd eu rôl yn dysgu plant sut i reoli a deall risg. Y mae hefyd yn bwysig fod Gweithwyr Chwarae'n sicrhau'r rhieni y gellir rheoli risg, ac y gall y plant ennill sawl budd o archwilio hyn. Mae risg mewn chwarae nid yn unig yn cynyddu hyder a gwydnwch plentyn, ond hefyd yn grymuso plant i reoli risg a meithrin agwedd gytbwys. Casgliad diddorol arall o'r gwaith ymchwil a gynhaliwyd gan Long oedd bod y plant a wnaeth brofi'r cyfyngiadau lleiaf hefyd â llai o ofnau. Nid yw hyn yn gyfystyr â dweud nad oeddent yn ymwybodol o risg, ond yn hytrach bod ganddynt ddealltwriaeth glir o'r hyn yr oedd risg; pethau megis traffig, cŵn heb eu goruchwylio a phlant hŷn. Roedd y plant â llai o ryddid â chanfyddiad gormodol o'r peryglon y gallant ddod ar eu traws petaent allan heb oruchwyliaeth oedolyn, gan gyfeirio at ynnau, rhai sy'n delio mewn cyffuriau, seicopathiaid a phobl sy'n rhoi ceir a thir ar dân. Fel Gweithwyr Chwarae gallwn helpu plant i gael cysyniad cymesur o'r byd o'u cwmpas a'u helpu i archwilio i'w hofnau drwy chwarae. Mewn lle Gofal Plant Allysgol gall plant brofi'r rhyddid sydd ei angen i'w meithrin i fod yn oedolion hyderus a chymdeithasol a all oresgyn yr heriau y byddant yn eu hwynebu yn nes ymlaen yn eu bywydau.

Mae'n glir bod adnoddau chwarae'n llai pwysig pan ddaw hi'n fater o fwynhad plant, a'i bod yn bwysicach bod plant yn cael y cyfle i archwilio i'w hawl i chwarae a'u syniadau eu hunain o hamdden a difyrrwch. Yn yr achos yma, mae llai yn fwy:

- Mae **llai** o gyfyngiadau o ran chwarae'n golygu **mwy** o fwynhad.
- Mae **llai** o agendau dan arweiniad oedolion yn golygu **mwy** o weithgareddau dan arweiniad plant sy'n adeiladu hyder a llesiant.



## Rôl y Gweithiwr Chwarae

yn anad dim yw cefnogi a hwyluso chwarae plant.

Mae Gweithwyr Chwarae'n defnyddio ymagwedd unigryw i blant yn chwarae, un sy'n derbyn o'r Ddamcaniaeth Chwarae, hyfforddiant parhaus a'r Egwyddorion Gwaith Chwarae. Rydym yn defnyddio ein hymagwedd at Waith Chwarae i gefnogi'r plant i greu man chwarae lle byddant yn teimlo'n ddiogel; lle byddant yn teimlo'u bod yn cael eu parchu, eu mawrbrisio a'u derbyn; a lle mae modd iddyn nhw gymryd rhan mewn chwarae sydd wedi ei ddewis yn rhydd a'i hunan-gyfarwyddo. Rydym yn cyflawni hyn drwy feithrin perthnasoedd da, cyfeillgar a llawn ymddiriedaeth gyda'r plant; a thrwy siarad â nhw a gwrando arnyn nhw. Bydd hyn yn gymorth i ni benderfynu ar eu hanghenion a'u hoffterau chwarae; ac i ddeall pa bethau y maen nhw'n hoff o'u gwneud, a beth yw eu diddordebau. Bydd hynny yn ei dro yn ein helpu i gynllunio a chynnal mannau chwarae addas, drwy adnabod a dod o hyd i rannau rhydd ac adnoddau chwarae eraill a fyddai'n cyfrannu at eu chwarae, a ddewisir yn rhydd, ac a hunan-gyfarwyddir.

Mae chwarae'n naturiol fyrfyfyr, ac mae plant wedi'u geni ag ysfa fiolegol a seicolegol i chwarae; gallan nhw wneud dim arall! Mae ganddyn nhw awydd mewnol i archwilio, rhoi cynnig ar bethau newydd, dyfeisio, creu, defnyddio eu dychymyg ac ymgysylltu ag eraill a'u hamgylchfyd; mae popeth yn antur iddyn nhw.

Rhaid i ni fodloni eu hanghenion a'u hoffterau a darparu ar gyfer dewis eang o gyfleoedd chwarae ynghyd â risg a heriau sy'n dderbyniol. Rhaid i nid gynnal asesiadau risg ac asesiadau risg v budd yn rheolaidd er mwyn gwneud yn sicr bod y plant yn ddiogel yn y Lleoliad, ac er mwyn hyrwyddo datblygiad iach a llesiant. Rhaid i ni fod â dealltwriaeth dda o bolisïau a gweithdrefnau ein Lleoliad, sydd yn eu lle er mwyn amddiffyn a diogelu'r plant a'r oedolion.

Fel Gweithwyr Chwarae rydym yn mawrbrisio amrywedd a gwahaniaethau; ac rydym yn gynhenid anwahaniaethol, yn barod i dderbyn ac yn gynhwysol. Rydym yn hybu ac yn cefnogi cyfartaledd a thegwch yn y man chwarae. Rydym yn sicrhau bod gan BOB plentyn fynediad cyfartal at gyfleoedd chwarae da, waeth beth fo'u gallu, eu hoed, rhywedd, hil neu ddiwylliant. Rydym yn gadarnhaol yn ein dull ac yn deall bod gan bob plentyn yr angen a'r hawl i chwarae.

Mae Gweithwyr Chwarae'n deall y manteision di-ben-draw a ddaw wrth i blant chwarae ac ymgysylltu mewn cyfleoedd chwarae cymdeithasol, corfforol ac emosiynol. Mae'r buddiannau'n cynnwys hunanhyder, hunanymwybyddiaeth a manteision datblygu mewn ffordd gyfannol; maen nhw'n canfod eu lle yn y byd, pwy ydyn nhw a phwy y maen nhw am fod. Maen nhw'n datblygu eu sgiliau negodi a datrys gwrthdaro ac yn dysgu sut i wneud y dewisiadau gorau mewn bywyd. Rydym yn cefnogi ac yn hybu chwarae drwy ddarparu profiadau sy'n gyffrous, yn ystyrlon, yn heriol ac yn hwyl, rhai sy'n ysgogi eu dychymyg a'u creadigrwydd ac sy'n cyfrannu'n helaeth at eu datblygiad o ran iechyd, eu datblygiad cyfannol a gwybyddol.

Rydym yn deall yr effaith negyddol sydd gan amddifadedd chwarae ar blant, a'r effaith niweidiol ar eu datblygiad a'u llesiant iach; felly mae'n rhaid i ni sicrhau nad yw chwarae plant yn cael ei effeithio gan agendau a arweinir gan oedolion, a rhaid i ni weithio i gael gwared â rhwystrau drwy hybu chwarae ac eirioli drosto, a thrwy sicrhau ein bod yn darparu'r cyfleoedd chwarae gorau, cwbl hygyrch ac a ddewisir yn rhydd. Ein cyfrifoldeb ni yw sicrhau bod yr holl blant yr ydym ni'n gweithio gyda nhw yn cael y cyfleoedd gorau posibl mewn bywyd.
Rydym yn ymagweddu tuag at bob plentyn â charedigrwydd a derbyniad, ac mae eu budd gorau nhw yn gwbl ganolog i ni.
Cewch hyd i gopi o'r Egwyddorion Gwaith Chwarae yn ardal yr aelodau ar ein gwefan - www.clybiauplantcymru.org/members.asp (Cliciwch ar adnoddau)

## Cwrdd â'r Tîm!

**Enw:** Angela Williams

**Teitl y Swydd:** Swyddog Hyfforddi

**Es faint ydych chi wedi bod yn gweithio i Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs?** Ers Awst 2020

**Beth yw eich hoff atgof o'ch plentyndod?** Tripiau i'r traeth

**Beth ydych chi'n hoff o'i wneud yn eich amser sbâr?** Garddio/darllen

**Os byddech wedi'ch gadael ar ynys bellennig a'r modd i gael un eitem foethus (heblaw am ffôn symudol), bydd fyddai hi a pham?** Radio fel y gallwn ddawnsio yn y tywod

**Beth fyddai pobl yn synnu o'i glywed amdanoch?** Roeddwn i yn seremoni agoriadol yr adeilad talaf yn y byd, y Burj Khalifa

**Beth yw eich hoff ffilm a pham?** Hocus Pocus, mae'n gwneud i mi chwerthin bob tro, yn ddi-ffael.

**Oes gennych unrhyw ffobias? Beth ydyn nhw?** Nadroedd, maen nhw'n rhy ddychrynllyd.

# Cymraeg

Gwelodd yr Hydref ddatblygu'r gweithdy Cymraeg Achlysurol ar-lein newydd. Ar adeg ysgrifennu'r erthygl yma, roedd tîm Cymraeg Gwaith wrthi'n brysur yn rhoi'r weminar iaith Gymraeg ar-lein newydd at ei gilydd, ynghyd â'r Pecynnau Hyfforddi a'r Pecynnau Cefnogi i'n Lleoliadau nad oedd yn gallu cymryd rhan yn ein gweithdai Cymraeg Achlysurol wyneb-yn-wyneb oherwydd pandemig Covid-19.

Rhoddwyd y cyfle i leoliadau gymryd rhan yn y gweminarau pwrpasol hyn ar ddechrau'r gaeaf a bwriadwn ddefnyddio adborth o'r sesiynau hyn i gyfrannu at ddatblygiad y gefnogaeth iaith-Gymraeg y byddwn yn medru ei darparu'n ddiogel yn y dyfodol.

Byddwn cyn hir mewn sefyllfa i dderbyn ffurflenni mynegiant o ddiddordeb newydd mewn datblygu a hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn eich Lleoliadau, felly cofiwch ddod i gysylltiad drwy gyfrwng info@clybiauplantcymru.orgos oes gan eich Lleoliad ddiddordeb mewn datblygu'ch defnydd o'r iaith drwy Gymraeg Achlysurol.

Yn y cyfamser gweler isod enghraifft o gêm yn iaith Gymraeg y gellir yn hawdd ei haddasu ar gyfer eich Lleoliadau er mwyn dal i hyrwyddo'r defnydd ehangach o'r iaith Gymraeg mewn amgylchedd chwarae ar bellter cymdeithasol.

**Gêm maes brwydrau**

• Gwnewch le ar y llawr, neu defnyddiwch ystafell, maes parcio, cwrt tenis a.y.b. sy'n cynnig ardal wastad ac agored.
• Rhannwch yn grwpiau fel y bo'n briodol – 4-6 aelod mewn grŵp – a'u rhoi i sefyll ar un pen o'r ystafell.
• Gosodwch gonau chwaraeon ar draws y llawr i wahanu'r grŵp o'r ochr arall i'r ystafell.
• Rhaid i bob aelod o'r grŵp groesi'r 'maes ffrwydron' yn eu tro, â mwgwd dros eu llygaid, heb gyffwrdd â ffrwydryn.
• Rhaid i aelodau'r grŵp sy'n gallu gweld rhoi'r cyfarwyddiadau iddyn nhw, yn Gymraeg.
• Bydd cyffwrdd â ffrwydryn yn golygu dychwelyd i'r dechrau. (Defnyddiwch eich lefelau o ystwythder eich hun i ddiffaru ar hyn, yn ôl y grŵp a'r hwyliau.)
• Gallech ddewis ddosbarthu 'Cardiau Siawns', swm arbennig o dalebau y gallant eu cyfnewid am gyfieithiad.
• Gallech wneud y gêm yn anoddach drwy ddefnyddio mwy o ffrwydron, gosod ffrwydron yn agosach at ei gilydd, terfynu amser neu drwy ddefnyddio cyfarwyddiadau DRYCH e.e. golyga cyfarwyddyd i droi i'r dde bod yn rhaid iddyn nhw droi i'r chwith.

Gemau ar-lein ac adnoddau DI-DÂL eraill ar gyfer datblygu'r defnydd o'r iaith Gymraeg:

https://www.learn-welsh.net/welshgames
https://www.digitaldialects.com/Welsh.htm
http://www.bbc.co.uk/wales/learning/primary/
http://mylanguages.org/welsh_games.php
https://www.tes.com/teaching-resource/welsh-yard-games-11864945

Dolenni ac adnoddau eraill i gynorthwyo'ch Lleoliad i ddatblygu'r iaith Gymraeg o'i fewn.

http://cymraeg.gov.wales/?lang=en
https://www.bangor.ac.uk/cymorthcymraeg/adnoddau.php.en

Gweler adnoddau eraill megis posteri iaith Gymraeg*, fideos byr a chwileiriau i blant ar ein gwefan @clybiauplantcymru.org.

**A Chofiwch!**

**Erthygl 30** Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn -yr UNCRC - 'Mae gan bob plentyn yr hawl i ddysgu a defnyddio iaith, arferion a chrefydd eu teulu, p'un a chaiff hon ei rhannu gan fwyafrif y bobl yn y wlad lle maent yn byw ai peidio'. (UNICEF.org).

Fel iaith leiafrifol, mae cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eich lleoliad nid yn unig yn hyrwyddo arferion gorau a threftadaeth ein gwlad, ond y mae hefyd yn hawl sylfaenol sydd gan bob plentyn yn ein cymunedau. Am wybodaeth bellach cofiwch gysylltu â'n swyddogion datblygu'r iaith Gymraeg @Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs.

*Mae tâl ychwanegol am bosteri Iaith Gymraeg, gweler ein gwefan am fanylion pellach.


# Out of School

Yswiriant ALL-YSGOL i glybiau all-ysgol





Gostyngiad o tua **15% i aelodau** Clybiau Plant Cymru Kids'

Mae yswiriant All-Ysgol wedi ei gynllunio'n arbennig i glybiau al-ysgol sy'n darparu gweithgareddau cyn ac ar ôl oriau ysgol.

Am fwy o wybodaeth ewch i
**www.mortonmichel.com/outofschool**
e-bostiwch
**outofschool@mortonmichel.com**
neu ffoniwch
**020 8603 0943**

Morton Michel
The **Childcare Insurance** Specialist

Awdurdodir a Rheoleiddir Morton Michel Cyf ('Morton Michel') gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol




# Chwarae Rôl wedi Covid-19

Wrth i gyfyngiadau'r cyfnod clo godi yng Nghymru a phlant yn gallu mynychu Lleoliadau unwaith yn rhagor, y mae'n bwysig cofio mai chwarae yw'r ffordd naturiol i blant ddysgu a datblygu, ac mae'n ffordd ardderchog iddyn nhw fynegi eu meddyliau a'u teimladau.

Yn ystod y cyfnod clo adroddodd rhieni eu bod yn gweld cynnydd yn anawsterau emosiynol eu plentyn, megis teimlo'n anhapus, yn bryderus, yn glynu atoch ac yn profi symptomau corfforol sy'n gysylltiedig â phryder.

A'r cyfan hyn yn y cof, y mae'n bwysig ystyried grym chwarae dychmygol. Mae chwarae dychmygol yn gadael i blant archwilio'r byd materol a'r hunan mewnol ar yr un pryd, gan helpu plant i adnabod ein hymateb emosiynol ein hunain i bethau, sydd yn broses iach iawn.

Mae Coronafeirws a'r cyfnod clo wedi effeithio plant mewn ffyrdd na allant eu hesbonio, a dyma pam y gallai rhai ddewis arddangos eu teimladau yn ystod eu chwarae yn y Lleoliad.

Gallai'r emosiynau hyn gael eu rhyddhau yn ystod chwarae rôl yn y gornel gartref, chwarae dychmygol gyda phethau byd bach, doliau, ceir a.y.b. Gallai ddigwydd pan fydd y plant yn chwarae y tu allan, neu gallent ddechrau siarad â chi am y ffordd y maen nhw'n ei deimlo.

Dyma rai awgrymiadau a fydd o gymorth wrth ystyried pa bryd ,neu os, bydd plentyn yn dechrau mynegi ei deimladau yn eich gofal:

**• Ymatebwch i'w Ciwiau**
Mae ar blant angen teimlo eich bod yn mynd i wrando arnynt pa mor fychan bynnag y gall problem /mater fod.

**• Siaradwch am eich teimladau eich hunan**
Byddwch yn fodel rôl – mae plant yn dysgu am deimladau a sut i'w mynegi'n briodol drwy wylio eraill. Dangoswch i'r plant sut yr ydych chi'n teimlo am wahanol sefyllfaoedd a sut yr y dych chi'n delio â'r teimladau hynny.

**• Rhowch help i'r plant roi enw ar eu teimladau**
Pan fydd plant yn teimlo'n rhwystredig neu'n ddig mae'n beth da i'w cynorthwyo i labelu eu teimladau, yn enwedig os ydynt yn rhy ifanc i wneud hynny eu hunain.

**• Osgowch fygu eu teimladau**
Mae hyn yn bwysig iawn; dydyn ni ddim am roi unrhyw negeseuon o gwbl nad ydych chi'n poeni am deimladau'r plant. Bydd mygu teimladau'n arwain at ddatblygiad isel o hunan-dyb yn y plentyn.

**• Peidiwch â'i gorwneud hi**
Mae angen ichi gydbwyso; ceisiwch fynd i'r afael ag unrhyw deimladau mewn ffordd adeiladol.

**• Byddwch yn agored i eraill**
Bydd angen i'r plant yn eich Lleoliad wybod eich bod chi yna ar eu cyfer os oes arnynt angen siarad. Gallwch wneud hyn yn llafar a thrwy ddefnyddio iaith gorfforol agored. Mae'n bosibl mai chi yw'r unig berson sydd gan blentyn i siarad â nhw.

## Chwarae y tu allan

Rydym ni oll yn gwybod pa mor bwysig yw chwarae y tu allan. Mae arweiniad Llywodraeth Cymru "Mesurau Diogelu mewn Lleoliadau Gofal Plant: Cadw Gofal Plant yn Ddiogel" hefyd yn nodi'n benodol bwysigrwydd chwarae y tu allan gymaint â phosibl yn ystod pandemig Covid-19. Felly mae'n bwysig meddwl am sut y gallwch ddefnyddio'r ardal allanol gymaint â phosibl. Yn hytrach na dod â'r un cyfarpar i'r tu allan yr un pryd, meddyliwch am weithgareddau eraill y gellir eu gwneud y tu allan. Dyma un o'n hoff syniadau:

### Paentio y Tu Allan

Bydd arnoch angen: holyn o bapur wal, Brwshys paent, Gwahanol liwiau o baent, Ffedogau

Peidiwch â defnyddio byrddau, defnyddiwch y llawr. Rholiwch allan ddarn hir o bapur wal, defnyddiwch ychydig o gerrig i'w gadw i lawr rhag chwythu i ffwrdd, a gofynnwch i'r plant yn eu grŵp/swigen fach i baentio'n rhydd. Mae'r gweithgaredd yma'n hwyl fawr; bydd plant naill ai'n paentio'u darlun eu hunain neu'n penderfynu rhyngddynt eu hunain eu bod oll yn mynd i baentio llun o jyngl neu anifeiliaid neu heolydd â cheir arnynt, ond gadewch iddyn nhw baentio'n rhydd a chael hwyl.

# Codi Hwyl wrth Godi Arian

Yn wyneb Covid-19 mae'n bosibl y bydd eich Lleoliad Gofal Plant yn dal i adfer yn ariannol, ac felly mae'n bosibl eich bod yn ystyried ffyrdd o arbed arian neu godi arian ychwanegol. Er y gallai deimlo'n 'ddigywilydd' i ofyn am roddion neu gynnal gweithgareddau codi arian ar adeg lle gallai rhai aelwydydd fod yn wynebu incwm llai neu straen ariannol eu hunain, mae'n bwysig cofio bod yn angen i elusennau godi arian hyd yn oed mewn adegau o argyfwng.

Fel Clwb Gofal Plant Allysgol, rydych â'ch ffocws ar y gymuned, ac yna i gefnogi teuluoedd lleol a helpu'r economi leol, ond i wneud hyn rhaid i chi ddal i fod yno! Felly adolygwch yr hyn sydd ei angen arnoch (e.e. cwblhewch ragolwg llif arian a chynllun busnes- mae cefnogaeth ac adnoddau ar gael ar ein gwefan) a gadewch i bobl wybod sut y gallant helpu!

Gwelir isod rai syniadau sydd wedi eu hysbrydoli gan y gaeaf:

**Diwrnod Siwmper Dolig** - ffefryn Nadoligaidd yw cynnal Diwrnod Siwmper Dolig (neu 'Ddydd Gwisg Ffansi Nadoligaidd' os ydych yn teimlo'n fwy anturus, a'r plant a'r staff i ddod wedi'u gwisgo fel ellyll/ceirw/Siôn Corn/anrhegion/coed nadolig!) a chodi ffi fechan.

**'Pobi Bant' Nadoligaidd** - gallech naill ai gael rhieni/gofalwyr yn dod â nwyddau wedi'u pobi i mewn gyda nhw i gynnal arwerthiant cacenni, neu gallech gynnal eich cystadleuaeth 'Pobi Bant' (ar ffurf' Bake Off') eich hunain, a'r cacenni'n cael eu gwneud yn yr adeilad a grŵp o blant i fod yn 'flaswyr' a dewis yr enillydd!

**Lapio Rhoddion** - fel Clwb gallech gynnig gwasanaeth lapio anrhegion yn eich cymuned leol, gan godi ychydig am bob anrheg unigol a gaiff ei lapio.

**Arwerthiannau Rhodd Arian Poced** - gwnewch gais i'ch cymdogaeth am eitemau o roddion nad oedd eu heisiau. Yna gall plant ddod â'u 'harian poced' i ddewis a phrynu rhoddion i aelodau o'u teulu, a gallech eu helpu i i'w lapio ar y safle. Neu gallech ehangu i werthu i'ch cymuned ehangach i gynyddu'r gwerthiannau.

**Calendr Adfent** - gwnewch gais i'ch cymdogaeth leol am rodiad nad oedd eu heisiau. Rafflwch y 'dyddiau' mewn calendr Adfent i rieni/gofalwyr, gan neilltuo rhodd ar gyfer pob dydd ym mis Rhagfyr.

**Cynhaliwch Ddisgo Gaeaf** - gall hwn fod ar thema gŵyl (noson tân gwyllt / y Nadolig) a ffi ychydig yn uwch am y sesiwn. Gallech hefyd werthu tameidiau/diodydd/rhoddion arian poced yn y disgo i wneud mwy o elw. Gall discos hefyd fod yn ffordd wych o ddenu defnyddwyr newydd i'w gwasanaeth!

**Karaoke Carolau** – mae pawb wrth eu bodd gyda Charol Nadolig dda! Pam na chynhaliwch chi noson karaoke wahanol – ynghyd â mins peis – i gael pawb i ymuno yn ysbryd y Nadolig?

**Cofiwch, gallwch gynnwys plant o'r dechrau i'r diwedd!**
Gall cynnwys plant mewn mentrau codi arian nid yn unig arwain at godi mwy o arian, ond y mae hefyd yn galluogi plant i ddatblygu sgiliau bywyd hanfodol. Ceir hyd i'n 'Canllaw Sut ', sydd ar gyfer cynnwys plant mewn mentrau codi arian, yn ardal aelodau ein gwefan.

## Cefnogwch Ni wrth inni'ch Cefnogi Chi!

Nid yw siopa ar-lein drwy www.easyfundraising.org.uk/clybiauplantcymrukidsclubs yn costio ceiniog yn ychwanegol, ond y mae'n caniatáu i ni dderbyn hyd at 15% o bob pryniant a wnaed o'r 400+ o siopau a restrir, gan olygu y bydd gennym fwy o arian i barhau i gefnogi clybiau megis eich clwb chi.



## e-newyddion

Fel aelod-glwb cewch afael ar ôl-rifynnau ein bwletinau e-newyddion yn ardal aelodau ein gwefan, sef **www.clybiauplantcymru.org** ac os oes gennym gyfeiriad ebost ar eich cyfer, anfonir rhifynnau o'r Bont i'r dyfodol atoch yn uniongyrchol. Anfonwch eich manylion ebost imembership@clybiauplantcymru.org er mwyn sicrhau eich bod yn derbyn eich copi electronig.

# Prosiectau

## Y ffocws ar CHWARAE yn yr Asesiad Allysgol

Mae'r Asesiad Allysgol yn rhoi cyfle i chi adlewyrchu ar bob agwedd ar eich Lleoliad, gellir ei gwblhau ar-lein a gall hefyd ffurfio rhan o'ch Adolygiad Ansawdd Gofal i AGC. Unwaith y bydd yr asesiad ar ffurf rhestr wirio wedi ei chwblhau, gall helpu i gyfrannu at gynllun gweithredu y gellir ei gwblhau gyda'ch Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant er mwyn gweithio ar wella ansawdd, cynaliadwyedd a chadernid eich busnes gofal plant.

Mae'r Asesiad yn gyfle i chi adlewyrchu ar amrywiol agweddau busnes eich Lleoliad, megis cyfreithiol, ariannol, llywodraethiad, rheoli, marchnata a hyrwyddo. Y mae hefyd 2 adran, 'Rheoli a Datblygu Staff' a 'Hyfforddiant ac Ansawdd' a all eich helpu i adlewyrchu ar ansawdd chwarae yn eich Lleoliad a'i wella, gan hefyd ychwanegu'r agweddau canlynol ar chwarae:

- Cymwysterau Gwaith Chwarae
- Mathau o Chwarae
- Polisïau Chwarae a Chyfranogaeth
- Yr Egwyddorion Gwaith Chwarae
- Dadansoddiad o risg/budd
- Y Cylch Chwarae
- Rhannau Rhydd mewn chwarae
- Arferion adlewyrchol
- Mannau chwarae
- Ymyriadau Chwarae
- Chwarae y tu allan

Os hoffech wybodaeth ar yr Asesiad a help i ddatblygu cynllun gweithredu, yn cynnwys adlewyrchu ar eich darpariaeth chwarae, cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu Busnesau Gofal Plant, eich Swyddfa Ranbarthol, neu cwblhewch ar-lein https://forms.gle/AYYo6yNX6h8PXRZh7.

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

## Tyfwch eich Gwledd eich Hun/Prosiect Garddio Canmlwyddiant Tesco

***Mae'n rhoi i blant hwyl, syniadau rhyngweithiol, adnoddau a gweithdai er mwyn iddynt fynd allan i'r awyr agored i dyfu, cynaeafu a choginio eu gwledd eu hunain, a dewis bwydydd iach o ran eu hunain.***

Diolch i Grantiau Canmlwyddiant Tesco yng Nghanolbarth, Gorllewin a De-ddwyrain Cymru, mae gennym fenter gyffrous i glybiau, sef 'Tyfwch eich Gwledd eich Hun', a fydd yn cynyddu ei fomentwm dros y misoedd i ddod. Byddwn yn cynorthwyo Clybiau i dyfu, cynaeafu a choginio eu gwleddau dathliadol eu hunain fel y gallant eu harddangos a'u rhannu gyda'u teuluoedd a'u cymunedau. Rydym hefyd am rannu eich profiadau er mwyn annog eraill: yr hadau cyntaf wedi'u hau, cynaeafu a gwleddoedd awyr-agored!

I roi cychwyn i chi, chwiliwch am 'Tyfwch eich Gwledd eich Hun' ar ardal aelodau ein gwefan er mwyn gweld rhai o'r gweithgareddau tyfu yr ydym eisoes wedi eu rhoi ar waith.

### Amser Cystadleuaeth 'Tyfwch eich Gwledd eich Hun'

ENILLWCH gyfle i'ch Clwb Allysgol fod yn rhan o'r prosiect newydd hwn. Bydd clybiau llwyddiannus yn elwa o gael cefnogaeth benodol gan un o'n Swyddogion Hyfforddi dros gyfnod o 6 mis, o ymweliadau wyneb yn wyneb a thros y ffôn i ddatblygu ardal lle gall eich plant a'ch pobl ifanc dyfu eu bwyd eu hunain, cysylltu â natur a'r awyr agored yn ogystal â dysgu amrediad eang o sgiliau newydd. Canlyniad y prosiect yn y pen draw fydd bod plant a phobl ifanc yn tyfu, cynaeafu a choginio eu gwleddau eu hunain.

I weld manylion a dyddiadau cau'r cyfle unigryw hwn, ewch i dudalen prosiectau ein gwefan.

## Cysylltu a Chefnogi Clybiau Gofal Plant Allysgol a Chymunedau, wedi ei ariannu gan Gronfa Gymunedol y Lotri Genedlaethol

**Dros flwyddyn gyntaf ein prosiect gyda chi rydym wedi bod yn cyrraedd amcanion y prosiect gwreiddiol yn ogystal â chefnogi Clybiau i ymateb i ac ailagor wedi Covid-19 gydag** ariannu atebol **Cronfa Gymunedol y Lotri Genedlaethol.**

- Rydym wedi darparu mwy o sesiynau sgiliau busnes nag a fwriadwyd gennym ar y dechrau, ac rydym yma i roi **cefnogaeth barhaus i fusnesau gofal plant** er mwyn gwella sgiliau llywodraethiad a busnes, gan hefyd ddatblygu digonedd o gefnogaeth ac adnoddau ar-lein i fusnesau megis cynllunio ariannol, marchnata a llywodraethiad.
- Fe wnaethom lansio ein '**Gweminarau Rhwydwaith**' yn ôl ym mis Awst o ganlyniad i gyfyngiadau'r cyfnod clo a'r gefnogaeth angenrheidiol i ailagor, ac rydym wedi cyflenwi digwyddiadau ar: Paratoi at Ailagor eich Lleoliad Gofal Plant wedi Covid-19; Gwaith Chwarae wedi Covid-19; Ariannu ar gyfer adfer y sector; a gwella Llywodraethiad. Darllenwch y dyfyniadau arbennig isod gan y cyfranogwyr yn ein gweminarau.**(Dilynwch ni ar facebook ac ewch i dudalen hyfforddiant/digwyddiadau ein gwefan i wybod mwy am ddigwyddiadau yn y dyfodol.)**
- Gwnaethom hefyd ddatblygu cynnwys ar-lein a dulliau cyflenwi o bell er mwyn cefnogi dysgwyr i symud ymlaen gyda'u cymwysterau Gwaith Chwarae (Prentisiaethau Gwaith Chwarae ar Lefel 2, 3 a 5 a Dyfarniad Lefel 3 CACHE mewn Trawsnewid i Waith Chwarae (o'r Blynyddoedd Cynnar) i gyfateb â'r gofyniad am y cymwysterau hyn yn 2021, ac rydym yn awr yn gallu cyflenwi hyfforddiant sylfaenol ac uwch mewn diogelu ar-lein.
- Rydym wedi helpu Clybiau i gofrestru gydag AGC er mwyn iddynt allu arddangos eu hansawdd i rieni ac arianwyr, a'u galluogi i gofrestru ar gyfer mentrau, megis Y Cynnig Gofal Plant a Gofal Plant Di-dreth' sy'n hwyluso fforddiadwyedd i rieni.
- Yn dechrau yn nhymor yr Hydref, rydym yn annog mwy o Glybiau i ddatblygu **cynlluniau gweithredu unigol** o asesiadau ansawdd er mwyn adeiladu ar eu **cryfderau a'u cefnogi gydag Adolygiad Ansawdd Gofal AGC**.

BAGS OF HELP TESCO



# CCB

Ar Hydref 21ain 2020, cynhaliodd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs ei 18fed Cyfarfod Cyffredinol. Rwyf wedi bod yn rhan o Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs am dros 17eg o flynyddoedd, ac ynghyd â Jane, ein PSG, rwyf wedi bod i bob un CCB.

Fe fyddwn, fel arfer wrth ysgrifennu hyn, yn adfer yn y swyddfa wedi diwrnod yn llawn dop o gyfarfodydd, hyfforddiant staff a siwrnai fws hir o Bontypridd i Westy'r Metropole yn Llandrindod, ac wrthi fel lladd nadredd yn teipio nodiadau'r 3 chyfarfod y byddwn fel arfer yn eu cynnal. Ond am y tro cyntaf, o ganlyniad i gyfyngiadau pandemig Covid-19, yn hytrach rwy'n yn adfer gartref wedi diwrnod o gyfarfodydd trwy Zoom!

Yn lle pryderu wrth i'r cyfarfod agosáu ynghylch a oedd gennym yr holl bapurau ar ei gyfer, a fyddai gennym ddigon o Ymddiriedolwyr yno'n bersonol, a fyddai'r bws yn ein cyrraedd (ac yna ddim torri i lawr), a fyddai eira neu lifogydd (fe ddigwyddodd!) a gobeithio bod anghenion deietegol pawb wedi'u bodloni, y tro yma yr oedd ynghylch sut i lywio'r pleidleisio â chymaint o bobl ar y sgrin, gobeithio nad oedd gormod o sleidiau ar y cyflwyniad, y byddai'r cysylltiad rhyngrwyd yn ddigon cryf , na fyddai ymyriadau cysylltiedig â phlant / anifeiliaid / nwyddau'n cyrraedd o Amazon, ac na fyddai'r dechnoleg yn ein siomi.

Roeddwn i'n meddwl y byddai'n brofiad rhyfedd cynnal ein cyfarfodydd Bwrdd a'n CCB ar-lein, ond mae'n amlwg fy mod i'n llawer mwy cyfarwydd â'r 'normalrwydd newydd' nag a sylweddolais! Rwy'n siŵr fod yr un peth yn wir yn achos sawl un ohonoch sy'n darllen y rhifyn llawn-dop hwn o'r Bont. Diolch i bawb ohonoch chi'r Ymddiriedolwyr, y staff, Clybiau a staff Awdurdodau Lleol oedd yn bresennol; roedd yn hyfryd eich gweld, a gobeithio i chi fwynhau'r wibdaith o'n cyflawniadau dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Aeth y CCB rhagddo yn dda iawn, ac mae'n bleser mawr gennym gyhoeddi i Sam Maitland-Price o Feithrinfa Little Lambs yng Nghonwy a Janet Owen of Cool Kids @ Cradoc ym Mhowys ymuno â'n Bwrdd Ymddiriedolwyr presennol. Os hoffech wybod pwy yw ein Hymddiriedolwyr, ewch am sbec ar ein gwefan www.clybiauplantcymru.org, cliciwch ar Cysylltu â Ni ac yna Ein Pobl. Neu os ydych yn darllen hwn ar-lein, does ond angen clicio ar y ddolen yma.

**Felly, ynghylch ein Hymddiriedolwyr Newydd...** Mae Janet wedi bod yn Arweinydd Chwarae / Rheolwr Cool Kids @ Cradoc ym Mhowys ers 18 mlynedd. Mae'n teimlo'n angerddol dros chwarae plant, hawliau plant,rhoi llais i blant yn eu difyrrwch a dewis yn eu chwarae rhydd. Mae gan Janet radd mewn Gwaith Chwarae ac mae hefyd yn gweithio ym maes addysg, yn cefnogi plant ag anghenion ychwanegol. Mae ganddi hefyd brofiad ym maes marchnata a dwi'n gobeithio y bydd modd i mi ei chael i'n helpu gyda'n marchnata ni yn y dyfodol!

Mae Sam yn berchennog ar Feithrinfa Ddydd ac yn brofiadol iawn o'r sector gofal plant, ac mae hefyd ynghylch cyflenwi hyfforddiant. Mae wedi gweithio mewn sawl gwahanol leoliad a chydag amrywiaeth eang o deuluoedd a phlant, a phrofiad gyda phlant ag ADY a'u teuluoedd. Ar hyn o bryd mae ganddi dîm o 24 o staff mewn 2 leoliad (Meithrinfa Ddydd a Chlwb Ôl-ysgol ym Mae Cinmel a Chlwb Ôl-ysgol a Chlwb Gwyliau ym Modelwyddan).

Mae hefyd wedi gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru mewn nifer o grwpiau llywio dros y 2 flynedd ddiwethaf, wedi ei hargymell gan weithwyr proffesiynol eraill i fod yn rhan o hynny. Bu Sam yn ymwneud yn fawr â datblygiad Cwricwlwm Newydd i Gymru o fewn y Grŵp Nas Cynhelir a'r Grŵp Ymgynghorol ar Asesu. Y mae bellach wedi ymuno â'r cyfnod nesaf yn y Grŵp Nas Cynhelir, a ddechreuwyd ym mis Mawrth 2020, a chafodd hefyd ei gwahodd i ymuno â Grŵp Llywio Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag Adolygu'r Polisi Chwarae yn Hydref 2019.

Rywsut, yn ogystal â'r cyfan yna, mae gan Sam ŵr ac mae'n fam i 2 o ferched ifanc 10 a 15 mlwydd oed sy'n ei chadw ar ei thraed! Ar ddiwrnodau rhydd maen nhw'n mwynhau ymlacio a hamddena ac mae ganddyn nhw sawl cyfnod o wyliau wedi'u cynllunio ar gyfer ymlacio a dadflino'n llwyr.

Rydym yn wirioneddol ar ben ein digon o gael Sam a Janet gyda ni; fe fyddan nhw'n ychwanegiadau rhagorol i'r Bwrdd ardderchog o Ymddiriedolwyr sydd gennym yn barod!

Os yw Sam, Janet, neu yn wir un arall o'n Hymddiriedolwyr wedi'ch ysbrydoli, ac os hoffech ymuno â ni ar yr adeg arbennig o gyffrous hon o newid, byddem yn ddiolchgar petaech yn cysylltu â ni ar at info@clybiauplantcymru.org. Mae arnom angen unigolion brwdfrydig ac ymroddedig i ymuno â ni. Gall hynny fod o Leoliad Aelodau neu mewn rôl gyfetholedig, os oes gennych ddiddordeb penodol yn y Sector neu sgiliau y tybiwch y gallent fod o fudd inni. Er mai rôl wirfoddol yw hon, gobeithiwn y cewch gymaint allan ohoni ag a roddwch i mewn iddi.

Yn ystod ein trydydd cyfarfod ddoe, fe wnaethom ethol Cadeirydd am y flwyddyn i ddod. Fe wnaeth Amy Baugh o Feithrinfa Ddydd Chuckles (ei pherswadio'n o gryf) gytuno i barhau'n Gadeirydd dros y flwyddyn i ddod. Mae Amy wedi bod yn gefnogaeth fawr i Jane, ac yn wir i'r gyfundrefn dros y 2 flynedd ddiwethaf, ac nid hawdd fydd cael rhywun yn ei lle y flwyddyn nesaf. Mae ein Hymddiriedolwr yn gwasanaethu am 3 blynedd, a bydd angen i rai ohonyn nhw ymddeol (cymryd toriad bychan!) y flwyddyn nesaf. Rydym yn gobeithio gallu recriwtio pobl newydd o blith ein Haelodaeth i barhau'r gwaith ardderchog sy'n cael ei gefnogi gan y Bwrdd presennol yn y dyfodol.

Felly, wrth fyfyrio ar ein ffordd ar hyd y 'normalrwydd newydd' gyda'r norm o gyfarfodydd ar-lein Zoom a Teams, gweithio o gartref a chydbwyso cyfrifoldebau rhiant / gofalwr / addysgu gartref yn dod yn ail natur i staff ein cyfundrefn, sylweddolir arbedion o ran arian ac amser o beidio â gorfod teithio (na gwisgo colur yn ddyddiol), a chydbwyso hynny gyda'r nwyddau a ddaw o Amazon Prime (dim ond fi falle?) a sut rydym wedi lleihau ein hôl-troed carbon drwy argraffu'r nesaf peth at ddim yn ystod y saith mis diwethaf, rwyf yn edrych ymlaen at amser pan allwn oll gyfarfod yn bersonol eto, chwerthin wrth feddwl pa ranbarth fydd yr ola' i gyrraedd y Metropole, anghofio argraffu copïau o'r Adroddiad Blynyddol i bawb ei ddarllen ar y ffordd adre (wrth gwrs, dy'n nhw byth yn chwarae gemau nac yn canu!), neu fwynhau'r bwffe hyfryd mae'r gwesty bob tro'n ei ddarparu, gobeithio eich bod chi bob un yn ddiogel ac yn iach, ac mi wela i chi oll yn fuan!

Shelley Jenkins
Rheolwr Gweinyddiad



# Chwarae Cost Isel

Mae cyfnod clo Covid-19 wedi effeithio'n fawr iawn ar sefyllfa ariannol Gofal Plant, ac wrth i ni ddychwelyd i ryw fath o normaledd, gyda'r Clybiau'n ailagor, ni ddaw hyn heb osod straen fwy byth o ganlyniad i'r cyfnod clo. Oherwydd hyn, bydd yn rhaid i leoliadau fod yn wyliadwrus iawn o ran eu gwario, ac mae'n bwysig eu bod yn cynllunio'u gwario yn fanwl. Un maes y gallent edrych arno yw er mwyn arbed arian yw adnoddau chwarae i'r plant.

Mae plant yn hoff o feiciau a chyfarpar chwarae mawr; maent hefyd yn hoff o dechnoleg, ac mae'r cyfan oll yn bwysig i'w datblygiad, a'r cyfan oll hefyd yn ddrud, ond gall plant gael cymaint o hwyl, pleser a chyfleoedd gydag adnoddau sy'n costio cyfran fechan o'r pris, ac sydd yn aml iawn yn gwbl ddi-dâl.

### Chwarae Dychmygus, Chwarae Ffantasïol, Chwarae Dramatig a Chwarae Cymdeithasol-ddramatig

Mewn chwarae dychmygus nid yw'r rheolau confensiynol, sy'n rheoli'r byd materol, yn gymwys. Y mae'n rhoi cyfle i blant chwarae drwy eu profiadau, cymryd rheolaeth ohonynt a chyrraedd at lonyddwch meddyliol (Bob Hughes). Y mae'n gwahaniaethau oddi wrth chwarae Ffantasïol gan eu bod yn chwarae gyda realaeth, ond yn eu ffordd eu hunain, e.e. gyrru trên. Mae chwarae ffantasïol yn rhoi cyfle i'r plant gymryd arnynt eu bod y rhywbeth nad yw mewn gwirionedd yn bodoli, megis esgus bod yn Batman. Mae'n rhoi'r cyfle iddynt archwilio'r ffiniau rhwng realaeth ac afrealaeth. Mae'n rhoi'r cyfle iddynt asesu a mynegi eu hemosiynau. Mae hyn yn ei dro yn datblygu eu dealltwriaeth emosiynol. Mae chwarae Cymdeithasol-Ddramatig yn rhoi cyfle i'r plant chwarae allan olygfeydd o'u bywyd pob dydd, pethau fel ysgol, mynd i'r siop neu "Mamau a Thadau". Yn achos rhai plant gall eu bywydau bob dydd beri ofn a dryswch iddynt, ac mae Chwarae Cymdeithasol-ddramatig yn rhoi cyfle iddynt weithio drwy emosiynau'r profiadau hyn, gan, weithiau, ychwanegu elfennau o ffug-gredu er mwyn eu galluogi i brosesu a rheoli rhai o'r teimladau negyddol sy'n gysylltiedig â'u normalrwydd nhw. Daw hyn yn amlycach fyth o ganlyniad i gyfnod clo Covid-19 ac rydych chi'n debygol o weld cryn dipyn o'r chwarae hwn wrth i blant wneud synnwyr o'r hyn sydd wedi digwydd a'r newidiadau cyson yn eu trefn. Mae'r mathau hyn o chwarae ar eu dyfnaf heb ymyrraeth, na hyd yn oed bresenoldeb, oedolion. Gwelir oedolion fel awdurdodau, yn feirniadol hyd yn oed, ac felly maent yn teimlo'n fwy cysurus i fynegi'r chwarae ar eu pennau eu hunain neu gyda'u cyfoedion. Neu gall Chwarae Dramatig fod yn berfformiad sydd wedi ei greu gan y plentyn, sydd i'w chwarae allan o flaen cynulleidfa. Chwarae dramatig yw chwarae digwyddiadau o gylch cymdeithasol ehangach plant, gan amlaf cymeriadau fel chwaraewyr pêl-droed, sêr y byd pop neu ffigurau ffantasïol.

Y mae mor bwysig fod y mathau hyn o chwarae ar gael i'r plant, ac fel Gweithwyr Chwarae ein gwaith i yw sicrhau bod gan y plant y llwyfan, yr amgylchedd a'r adnoddau i gyfranogi yn y mathau yma o chwarae. Y peth ardderchog am y Mathau o Chwarae hyn yw y gellir eu darparu ar gost gyfyngedig. Gellir defnyddio rhannau rhydd y gellir eu casglu yn rhad ac am ddim wrth chwarae rôl, ac fel props i'w perfformiadau dramatig. Gellir defnyddio "uwchlwytho" hen fysellfyrddau cyfrifiaduron a setiau llaw ffonau ar gyfer eu chwarae. Gallant wneud cerbydau, sgrapiau crefft, sisyrnau, glud a phaent o hen focsys gwag, y cyfan yn rhad. Gellid defnyddio plasteri, rhwymau ac offer Cymorth Cyntaf os bydd plant am greu ysbytai i chwarae allan eu meddyliau ynghylch Covid. Gall trip i'r siop elusen roi i chi ddewis eang o eitemau y gellir eu defnyddio ar gyfran fechan o gost prynu "dillad gwisgo i fyny". Mae gan blant y fath ddychymyg fel y byddant yn gwybod sut i ddefnyddio'r eitemau hyn, a'ch synnu mae'n siŵr! Peidiwch â bod ofn gofyn am roddion gan rieni. Gyda diwrnod byd-eang y llyfr bob blwyddyn, a phrosiectau gwisgo-i-fyny ysgolion mae gan lawer o deuluoedd lawer o wisgoedd y maent wedi eu casglu dros y blynyddoedd, rhai y bydd eu plant y tyfu allan ohonynt. Atgoffwch nhw i beidio â'ch anghofio chi os byddant yn clirio ryw dro ac yn cynnig rhoddion; fe gewch eich hunan mae'n siŵr ag 20 o wisgoedd Elsa ac 20 gwisg Batman mewn pob math o feintiau, ond fydd 'na ddim ymladd dros tro pwy ydy hi i wisgo gwisg Batman!

### Dylech bob tro gadw Rhannau Rhydd mewn cof

Gellir defnyddio rhannau rhydd ym mhob Math Chwarae. Chwarae Creadigol mae'n debyg yw' r Math o Chwarae y gwelwch fwyaf mewn Clwb, a does dim rhaid i hyn fod yn ddrud. Gall plant greu allan o unrhyw beth! Mae darnau o ddefnydd, glud, sialc, creonau oll yn rhad, ond meddyliwch am ddefnyddiau eraill y gellir eu defnyddio i greu. Halen neu flawd dros bapur lliw; gall plant ysgrifennu neu dynnu llun gan wylio'r lliw yn torri drwodd. Mae hyn yn arbennig o dda i ddatblygiad plant iau, o ran rheoli pin sgrifennu. Cymer hyd at tua 5 mlwydd oed cyn i blant allu dal a rheoli pin sgrifennu'n gyffyrddus oherwydd datblygiad eu hesgyrn. Bydd defnyddio symudiadau mawr yn y mathau hyn o ddeunydd yn datblygu eu sgiliau gwneud ariau hyd nes y byddant yn gallu defnyddio offer sgrifennu.

Mae rhannau rhydd yn gefn mawr i Chwarae Archwiliadol. Golyga Chwarae Archwiliadol blant yn arbrofi gyda gwrthrychau arbennig neu'r amgylchedd. Gall y rhain fod yn Lego neu'n friciau adeiladu, a fyddai gennych eisoes, mae' debyg, yn eich Lleoliad, ond gall hefyd fod yn unrhyw beth yn yr amgylchedd: rhaff, hoelion neu bren. Datod gwrthrychau' ddarnau a gweld sut i'w rhoi yn ôl at ei gilydd, neu ddod o hyd i ffyrdd i'w troi'n rhywbeth arall. Darparu amrywiaeth o rannau rhydd, a gallant fod yn unrhyw beth o boteli plastig i ddarnau cerrig. Pan fyddwch allan o gwmpas y lle, neu hyd yn oed gartref, a'ch bod yn gweld gwrthrych sy'n edrych yn anarferol, casglwch ef a'i roi yn y Lleoliad, yna gwylio beth mae'r plant yn dewis i'w wneud ag ef.

### Pwysigrwydd Risg

"Egwyddor Gwaith Chwarae 8: Mae Gweithwyr Chwarae' dewis dull o ymyrryd sy'n galluogi plant a phobl ifanc i ymestyn eu chwarae. **Rhaid i ymyriad gan y Gweithiwr Chwarae gydbwyso risg a budd datblygiadol a llesiant plant.**" Grŵp Craffu'r Egwyddorion Gwaith Chwarae, 2005.

Yn awr, yn fwy nag erioed, bydd risg yn rhywbeth i'w hyrwyddo; bydd gadael i'r plentyn fod y tu allan yn cymryd risgiau yn rhoi cymaint o gyfle iddynt. Efallai y bu rhai plant yn amharod i gymryd risgiau cyn iddynt fod â'r cysur o weithgareddau "mwy diogel" y tu mewn. Hefyd, mae pob posibilrwydd y gallai'r cyfnod clo yma wedi mwyhau ofnau plant; maent wedi bod mewn swigen amddiffynnol am gymaint o amser fel y gallai rhoi'r cyfle hwn iddynt arbrofi â risg fod o wir gymorth gyda'r gorbryder yma.

Nid yw cyfleoedd i fod mewn risg yn dod â phris ynghlwm. Cofiwch mai'r plentyn sy'n penderfynu beth sy'n risg iddyn nhw. I blentyn sydd wedi dringo coeden dal ganwaith, dydy hyn ddim y risg, ond i blentyn iau sydd heb lwyddo i'w ddringo, bydd hyd yn oed rhoi cynnig arni'n risg. Daw risg hefyd ar ffurf risgiau i'r meddwl. I rai plant mae perfformio o flaen eu cyfoedion y risg, nid yw bob tro ynglŷn â dringo a gweithgareddau sydd â'r potensial i achosi anaf corfforol. Mae bod y tu allan i'ch cylch cynefin hefyd yn cael ei ystyried yn risg, ac fel Gweithwyr Chwarae mae angen i ni ganiatáu a hwyluso'r cyfleoedd yma, a'u hwyluso, er mwyn cynnig cefnogaeth i'r plentyn, os byddant ei hangen, er mwyn rheoli hyn.

### Ymgynghori â'r Plant

Cewch y syniadau gorau ynghylch chwarae cost isel drwy ofyn i'r rhai y mae'r chwarae ar eu cyfer. Ymgynghorwch â'ch plant, esboniwch fod yr arian yn gyfyng ac yr hoffech wybod pa syniadau sydd ganddynt o ran y pethau y gallant eu gwneud, nad ydynt yn costio arian. Dywedwch wrth y plant, os gwelant rywbeth o fyd natur y tu allan yr hoffent ddod ag ef i mewn i'r Clwb, y gallant wneud hynny. Gofynnwch iddynt edrych am rannau rhydd y maen nhw'n eu cael yn ddiddorol. **Peidiwch ag anghofio, dyma'u hamser nhw, eu man nhw a'u chwarae nhw.**



# Diwrnod Chwarae Cenedlaethol 2020



Y Diwrnod Chwarae (Play Day) yw'r Diwrnod Cenedlaethol chwarae yn y DU, yn cael ei gynnal yn draddodiadol ar y Dydd Mercher cyntaf ym mis Awst. Thema Diwrnod Chwarae 2020 oedd Rhyddidau Pob-dydd, Anturiaethau Pob-dydd ("Everday Freedoms, Everyday Adventures").Yn ogystal â thynnu sylw at bwysigrwydd darparu ar gyfer plant a phobl ifanc y rhyddid i chwarae ac anturio, a'r ffaith bod gan bob plentyn yr hawl i chwarae, fe wnaeth hefyd ymgais at gydnabod effaith Covid-19 ' ac ymbellhau cymdeithasol ar iechyd meddyliol plant a chyfleodd i chwarae'n rhydd gyda'u ffrindiau yn eu cymuned.

Mae'r rhifyn cyfan hwn o'r Bont yn canolbwyntio ar y budd mawr a gaiff chwarae ar lesiant emosiynol a chorfforol plant, a'r ffordd y mae'n meithrin creadigrwydd, gwydnwch a hyder. A'r Pandemig yn gadael ei ôl, daeth hyd yn oed yn fwy hanfodol i dynnu sylw at bwysigrwydd chwarae a'i fuddiannau. Er y dylid cydnabod a blaenoriaethu hyn yn ddyddiol, y mae bod â diwrnod Cenedlaethol lle y rhoddir iddo'r prif ffocws, yn atgyfnerthu'r neges a, gobeithio, yn annog adlewyrchu ar lefel leol a Chenedlaethol.

Oherwydd y cyfyngiadau a oedd yn eu lle ym mis Awst o ran ymgasglu'n gymdeithasol, bu'r Diwrnod Chwarae hwn ar ffurf ychydig yn wahanol. Cuddiodd staff Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs gyfanswm o 600 o focsys gweithgaredd ar draws Cymru er mwyn i blant a theuluoedd ddod o hyd iddynt - Helfa Drysor Genedlaethol i annog pawb i fynd allan i'w awyr agored yn eu cymunedau a chwarae. Roedd yn ymdrech tan y tîm cyfan - Swyddogion Hyfforddi, Swyddogion Datblygu Busnesau Gofal Plant, Gweinyddwyr, Cynorthwywyr Ariannol ac aelodau'r Uwch Dîm, ac roedd y cyfryngau cymdeithasol yn llawn dop o ddelweddau a oedd yn gliwiau i'r mannau y cuddiwyd y bocsys.

Roedd lefel yr ymgysylltu'n syfrdanol o uchel, a sawl Clwb Gofal Plant Allysgol hefyd yn cyfranogi! Cyrhaeddodd ein postiau ar Awst 5ed 38,388 o bobl, a 8,963 o bobl yn ymgysylltu â nhw. Rydym mor falch o'r tîm sydd gennym, a'r ffordd y gwnaethom weithio i godi proffil chwarae ymysg yr holl waith arall sy'n cael ei wneud i helpu'r Sector i ailagor.

Roedd yn braf gweld ffotograffau ar y cyfryngau cymdeithasol o blant yn dod o hyd i'r bocsys ac yn defnyddio'r cynnwys i ysbrydoli eu cynnwys. Postiwyd y syniadau gweithgaredd hefyd ar ein tudalen Facebook yn ddiweddarach yn y dydd, i gefnogi ymwneud y rhai nad oedd wedi llwyddo i ddod o hyd i focs.

Edrychwn ymlaen at yr hyn a fydd gan Ddiwrnod Chwarae 2021 i'w gynnig!

A chofiwch, #daliwchiwenu a #daliwchichwarae





## Mae Chwarae'n bwysig i 'Oedolion' hefyd!

Wrth drafod pwysigrwydd chwarae, tueddir i ganolbwyntio ar fuddiannau chwarae i blant a phobl ifanc. Gyda holl brysurdeb ein bywydau y dyddiau hyn, a chymaint o flaenoriaethau eraill, mae'n hawdd anghofio manteision chwarae i oedolion yn ogystal. Gall amser hamdden i oedolyn nodweddiadol olygu gwag-wylio'r teledu neu fynd ar y cyfrifiadur: rhywle rhwng y bod yn blentyn a dod yn oedolyn, yn achos nifer ohonom peidiodd y chwarae.

Gall chwarae, yn sicr yn achos plant, fod yn ffordd ragorol o fwydo'ch dychymyg, eich creadigrwydd, eich gallu i ddatrys problemau, meithrin gwydnwch, lleihau straen, gwella sgiliau cymdeithasol, gela sgiliau cymdeithasol a chefnogi llesiant corfforol ac emosiynol. Mae chwarae wedi dangos ei fod yn erfyn dysgu ardderchog i blant, ond gellir dweud yr un peth yn achos oedolion yn ogystal, yn ogystal â bod o fudd i gynhyrchedd, gwaith tîm, morâl a boddhad mewn swydd pan fydd yn digwydd ar y cyd â chydweithwyr.

Mae Chwarae'n cryfhau perthnasoedd: mae chwarae a hiwmor yn ffyrdd ardderchog o gysylltu â ffrindiau a hyd yn oed ag anifeiliaid anwes. Drwy chwarae gall oedolion barhau i fireinio'r sgiliau cymdeithasol a'r sgiliau cyfathrebu y mae chwarae'n eu hadeiladu pan oeddent yn blant. Rydym yn dysgu i gydweithredu ag amrywiol unigolion a meithrin ymddiriedaeth.

- Mae chwarae'n esmwytháu straen: gall chwarae ryddhau endorffinau, gan roi synnwyr dwysach o lesiant. Gellir hyd yn oed ddefnyddio chwarae mewn therapi i gefnogi gwella o drawma emosiynol.
- Mae chwarae'n gwella gweithrediad yr ymennydd: mae tystiolaeth bod chwarae sy'n ymwneud â'r cof (e.e. gwyddbwyll, posau) yn atal problemau gyda'r cof ac yn cefnogi gweithrediad yr ymennydd.
- Mae chwarae'n "eich cadw'n ifanc". Gall chwarae roi hwb i'n hegni, ac fel y dywedodd George Bernard Shaw, "Dy'n ni ddim yn peidio â chwarae wrth fynd yn hen; rydyn ni'n mynd yn hen am ein bod wedi peidio â chwarae."

Mae gweithleoedd sy'n annog chwarae a chreadigrwydd wedi cael eu cysylltu â lefelau uwch o gynhyrchiant, boddhad mewn swydd, morâl, a lefel is o drosiant ymysg staff. Gallai hyn fod yn gemau grŵp/chwaraeon/cwisiau amser cinio, partïon neu gymdeithasu y tu allan i oriau gwaith, neu amgylchfyd anffurfiol cefnogi'r awydd i fod yn chwareus.

Pan fyddwch chi'n teimlo wedi'ch dihysbyddu, o dan straen, neu pan fyddwch wedi taro cyrraedd y pen gyda phroblemau gwaith neu bersonol, mae cymryd yr amser i 'adnewyddu' eich hunan drwy chwarae nid yn unig yn helpu i leihau lefelau straen ond hefyd yn ymgysylltu â rhannau creadigol eich ymennydd, a fydd yn eich galluogi i ddychwelyd i'r broblem gyda syniadau newydd ar sut i'w ddatrys.

Yn achos oedolion â phlant, mae cymryd yr amser i chwarae â nhw yn hollbwysig i oedolion ac i'r plant eu hunain. Yn ogystal â chynorthwyo datblygiad eich plentyn a rhyddhau endorffinau cadarnhaol ar gyfer y ddau ohonoch, mae chwarae'n cryfhau'r cyswllt rhyngoch. Bydd sicrhau bod amser chwarae'n flaenoriaeth (efallai ar adegau arbennig o'r diwrnod) bydd rhoi eich holl sylw i ffwrdd o bethau eraill sy'n denu, a gadael i'ch plentyn arwain y chwarae, oll yn helpu i sicrhau eich bod ill dau yn profi'r nifer o fuddiannau sydd gan chwarae i'w gynnig.

# Cwrdd â'r Tîm – Y Rhifyn Chwarae!



### Beth yw'ch hoff atgof o chwarae yn ystod eich plentyndod?

"Dringo coed a chwarae mig ar y comin – a siglenni rhaff."

"Mae gen i sawl cof o chwarae y tu allan, ond hefyd o gemau bwrdd gyda'm teulu...'mouse-trap' oedd un o'm hoff rai!"

"Gwneud sioeau ffasiwn, dylunio a gwneud dillad i'm doliau eu gwisgo, gyda fy mam. Doedd ganddi fawr o amser sbâr a dweud y gwir, ond byddai ganddi bob tro amser i mi."

"Bod y tu allan, dringo coed, gwneud cadwyni llygaid-y-dydd a 'nythod' o wair wedi'i dorri."

"Chwarae mewn rhan o goedlan y byddem yn ei galw â hoffter yn lleol yn goed cylychau'r gog (bu adeiladu arni erbyn hyn, a gwnaeth hynny i mi deimlo'n eitha trist!), neidio o garreg i garreg ar hyd yr afon a gwneud deniau rhwng y coed."

### Beth oedd eich hoff gêm pan oeddech yn blentyn?

"Plismyn a Lladron, a Dead Man's Fall (thema droseddol yn digwydd yma), gwneud deniau a siglenni rhaff yn y coed, a cherdded i fyny afonydd (dwi'm yn credu bod Mam yn gwybod hyd heddiw mod i wedi bod yn gwneud hynny!)"

"Roeddwn i'n dwlu ar chwarae llawn dychymyg; ro'n i wrth fy modd yn chwarae gyda'm doliau a'm teulu. Un o'm ffefrynnau oedd chwarae ysgol … roedd yn rhaid i'r teulu eistedd ar y staer a fi oedd yr athro … roedd fy nhad-cu bob tro mewn trwbwl am greu anhrefn yn y dosbarth!"

"Roeddwn i'n arfer dwlu ar 'chwarae ysgol neu swyddfa' ac fe fyddwn i a'm ffrindiau wrth ein boddau'n mynd i B&Q a gwahanol leoedd gyda'n rhieni a chasglu slipiau lliw neu unrhyw beth y gallem esgus eu bod yn bapur swyddfa. Byddem naill ai'n ei chwarae yn ei stafelloedd gwely neu ardd a'r nant a fyddai'n rhedeg ar hyd ochr ein tŷ."

"Adeiladu pethau (Fe wnaethom droi'r ardd yn barc antur unwaith y ceisiodd godi ar bobl a dod i mewn!)"

"Fy hoff gêm oedd chwarae gymnasteg yn yr ardd gyda'm ffrindiau. Roeddem yn arfer gwneud llawsafiadau, rholio drosodd, chwarae limbo gyda chansen fambŵ, neidio a chwarae tig. Roedd yn llawer o hwyl."

"Hela am bethau yn yr ardd – tylwyth teg fel arfer (gan ddefnyddio fy nychymyg)."



### Ble'r oedd eich hoff le i chwarae pan oeddech yn iau?

"I fyny ar yr ehangder o dir comin a choed lle ces fy magu. Roedd hyd yn oed gennym res teras fechan, anghysbell o dai wedi eu gadael, ac ysbryd yn eu meddiannu wrth gwrs, yn ein tyb ni."

"Roedd llai o draffig ar y ffyrdd pan oeddwn i'n blentyn, felly fe fyddem ni'n aml yn chwarae yn y stryd gyda'r plant lleol eraill. Roeddem hefyd wrth fy modd yn chwarae yn y 'cwm', sef cronfa ddŵr fawr; gallem nofio yno, taflu cerrig gwastad a chuddio yn y rhedyn. Byddem yn aml yn gwneud gwaywffyn o'r rhedyn i weld pa mor bell y gallem eu taflu."

"Roeddwn i'n dwlu ar chwarae y tu fas yn yr ardd; byddai fy mrodyr yn creu gemau i mi eu chwarae ac yn cuddio 'trysor' i mi ei ffeindio."

"Yn y nant, roeddem i gyd mor hoff ohoni, dringo coed, camu ar gerrig yr holl ffordd o'r top i'r gwaelod; deniau, a mynd drwy'r geuffos yn y gwaelod. Nid oeddem i fod i chwarae yn y nant (er bod ein rhieni'n gwybod nad oedd pwynt ymladd y frwydr honno!); byddem yn creu esgusodion i amddiffyn ein gilydd, gan gadw at y celwyddau ynghylch sut gawsom grafiadau ar ein pengliniau a pham roedd ein sgidiau a'n sanau'n wlyb diferol!"

"I fyny'r mynydd. Roeddwn lwcus i fyw yn y lle yma, wedi ei amgylchynu gan fynyddoedd. Hefyd roedd afon fawr yn rhedeg ar hyd ein pentref- roedd pob dydd yn antur."

### Beth yw'ch hoff gêm i'w chwarae yn awr?

"Dwi'n dal i fod yn hoff o chwarae cwato a ffeindio neu gemau bwrdd gyda'r teulu; Yahtzee a Pass the Pigs, unrhyw un a all ffitio mewn bag a dod gyda ni i unrhyw le."

"Rwyf wrth fy modd yn chwarae gêm fwrdd nawr...mae fy merch yn dueddol o ennill bob tro ond dwi ddim yn siŵr eto a yw hi'n dilyn y rheolau neu'n twyllo! Y ffefrynnau arferol yw Cluedo a Catchphrase!"

"Dwi wrth fy modd gyda chelf a chrefft. Dwi'n cael hynny'n therapiwtig iawn. Mae fy nhri o blant bob un yn hoff o baentio a dylunio modelau, o glai a play-dough."

"Dwi'n dwlu ar chwarae mig gyda'm plant a'u gweld yn glanna' chwerthin am fy mhen i'n mynd yn sownd mewn llefydd neu'n trio sleifio allan o guddio o dan y gwely!".

"Dwi'n dal i adeiladu pethau – dim ond bod y pethau'n fwy!"

"Dwi'n wirioneddol fwynhau bod y tu allan, nid yn chwarae yn gymaint â chael amser teuluol - barbeciws, nosweithiau pizza, chwarae gyda'n hwyres sy'n un flwydd oed, mae'n hoff iawn o unrhyw beth sy'n gwneud sŵn!".

"Dal i ddefnyddio fy nychymyg a meddwl am yr holl bethau na allwn eu gweld - megis bywyd cudd anifeiliaid."

"Creu storïau gwirion gyda'm hwyrion, esgus bod rhai o'm hesgyrn wedi torri a chreu storïau gwallgo am sut y gwnaeth hyn ddigwydd. Roedd Brax yn reidio -Rex, cafodd frwydr gleddyfau gyda Pterodactyl, a'i gymerodd trwy'r aer i'w nyth a cheisio'i fwydo i'w gywion. Defnyddiodd Brax ei sgiliau ninja i drechu'r Pterodactyl a 'thorrodd ei arddwrn' yn y broses!"





Gwelir rhai i'r cyfarnwyr, o'r brig i'r gwaelod ac o'r chwith i'r dde, Naomi Evans, Becky Hall, Phoebe Wilson a Nicole Lovatt.



# Cofrestru eich Clwb Gofal Plant Allysgol gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Mae'r angen am Ofal Plant sydd wedi ei gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ar gyfer cymunedau yn fwy hanfodol nag erioed o'r blaen i gynorthwyo gydag adferiad economaidd yn dilyn lledaeniad Covid-19.

Felly, pam ddylech chi gofrestru'ch Clwb Gofal Plant Allysgol?

• **AMSERAU DECHRAU/GORFFEN GRADDEDIG YSGOLION** a fydd yn golygu, er mwyn casglu plant a fydd y gorffen eu diwrnod ysgol ynghynt, y bydd efallai'n rhaid i chi addasu eich adegau agor er mwyn parhau i gydymffurfio'n gyfreithiol ac i sicrhau eich bod yn dal i redeg am lai na 2 awr y dydd. Mae'n bosibl y caiff hyn effaith sylweddol ar eich busnes a'ch incwm.

- A ydy'ch ysgol/ysgolion yn dal i raddio amserau cyrraedd/casglu neu a ydych chi wedi ystyried a allai hyn digwydd eto yn y dyfodol?
- A oes angen i chi newid eich amserau agor?
- A fydd y newid hwn yn yr amser gorffen yn gymorth i'ch rhieni barhau i weithio/hyfforddi

• **FFORDDIADWYEDD GOFAL PLANT** a fydd yn bwysicach fyth i gefnogi rhieni/gofalwyr i gynnal/gael cyflogaeth yn dilyn y Pandemig. Bydd cofrestru eich Clwb yn cynorthwyo rhieni cymwys drwy gynllun Gofal Plant Di-dreth Llywodraeth y DU (sy'n galluogi rhieni sy'n gweithio i gael gostyngiad o 20% yn eu ffioedd), Y Cynnig Gofal Plant i Gymru (sy'n galluogi rhieni/gofalwyr plant 3-4 blwydd oed sy'n gweithio i gyrchu 30 awr yr wythnos o addysg y blynyddoedd cynnar a gofal plant wedi ei ariannu) ynghyd ag elfen ofal plant y Credyd Treth Gwaith/ Credydau Cynhwysol.

• **COFRESTRU AR-LEIN** sy'n dod â sawl budd i ddarparwyr. Yn achos AGC Ar-lein, mae'r data'n ddiogel, ac mae'n hwyluso cyfathrebu diogel rhwng Darparwyr ac AGC. Mae prosesau ar-lein (megis cofrestru) hefyd yn golygu bod gwybodaeth yn ymddangos mewn ffordd ddeinamig, yn unigolyddol ac wedi ei symleiddio; bydd darparwyr yn gweld y wybodaeth sy'n berthnasol yn unig iddyn nhw, eu strwythur cyfreithiol a'u strwythur rheoli. Mae AGC hefyd wedi ystyried yn ofalus pa wybodaeth a fydd - a pha wybodaeth na fydd - ei hangen yn ôl y Rheoliadau, ac felly dim ond y cwestiynau perthnasol a ofynnir ar y ffurflen ar-lein newydd.

• **CYFLYMDER Y BROSES GOFRESTRU** Blaenoriaethir gan AGC geisiadau i gofrestru gwasanaethau sydd eu hangen o ganlyniad i'r pandemig, er mwyn cynorthwyo darparwyr i gofrestru a chynnig y gwasanaethau sydd eu hangen ar eu cymunedau, ar yr amod bod y ceisiadau a gyflwynir yn rhai o ansawdd da sy'n cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol.

• **CYNALIADWYEDD EICH BUSNES** a gaiff ei gefnogi gan:

- Cyfleoedd i ymestyn amserau agor a gwasanaethau e.e. cynnig Clwb Gwyliau, dod â refeniw newydd i mewn a chefnogi eich cymuned.
- Y potensial o gynyddu nifer y lleoedd a gymerir; mae darpariaethau'n fwy fforddiadwy i rieni/rhieni a all gyrchu'r ariannu a amlinellir uchod, ac mae'r rhieni/gofalwyr â'r sicrwydd fod eich darpariaeth yn cynnig Gofal Plant a Chwarae sy'n bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

• **CYFLENWI CYMWYSTERAU AR-LEIN** sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd i gynorthwyo Clybiau Gofal Plant Allysgol i ennill y cymwysterau gofynnol mewn Gwaith Chwarae (bydd cymhwysedd yn berthnasol). Cysylltwch â'ch Swyddfa Ranbarthol i am fwy o wybodaeth.

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

## Ariannu y Loteri

Yn rhan o'n **Prosiect Pawb a'i Le Cronfa Gymunedol y Lotri Genedlaethol** ac yn y siroedd lle'r ydym wedi ein hariannu gan yr Awdurdod Lleol, mae modd i'n Swyddogion Datblygu Busnesau Gofal Plant gefnogi Darparwyr Gofal Plant Allysgol newydd a phresennol drwy broses i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Byddai'n dda iawn gennym gefnogi eich Clwb drwy'r broses hon, ac fe'ch croesawn i gysylltu â'ch Swyddfa Ranbarthol i drafod hyn ymhellach, yn enwedig os teimlwch fod eto rwystrau yn eich ffordd y mae angen ymdrin â hwy

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND

# Arddangos Amgylchedd Chwarae o Ansawdd

Mae pob Clwb Gofal Plant Allysgol Cofrestredig yn cael eu harchwilio gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i sicrhau y rhoddir gofal diogel ac y glynir wrth y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Er bod AGC, ar adeg ysgrifennu hyn, wedi gohirio pob archwiliad arferol, mae'n bosibl eich bod yn meddwl am sut orau i baratoi a'r hyn y gallai fod eu hangen arnoch er mwyn bod yn barod i'ch archwiliad nesaf.

Ym mis Hydref 2019, teithiodd ein Rheolwr Hyfforddiant Cenedlaethol, Dawn Bunn, ynghyd â Chwarae Cymru, i lawr i'r Drenewydd i gyflenwi hyfforddiant 'Chwarae' i grŵp o Archwilwyr Arolygiaeth Gofal Cymru, sy'n mynd i gymryd y rôl o 'Eiriolwyr Chwarae'. A rhai Archwilwyr â mwy o gefndir yn y Blynyddoedd Cynnar a/neu Addysg, bydd ategu at eu dealltwriaeth o'r gwahaniaethau rhwng y rhain ac Amgylchedd Chwarae o ansawdd i blant oed ysgol yn rhoi iddynt y wybodaeth angenrheidiol er mwyn asesu a deall ansawdd y profiadau chwarae a roddir mewn Clybiau Gofal Plant Allysgol. Gobeithiwn y bydd hyn yn arwain at ffocws cynyddol ar amgylcheddau chwarae mewn archwiliadau wrth symud ymlaen, sy'n golygu bod angen i ni fel Sector sicrhau ein bod yn dilyn yr Egwyddorion Gwaith Chwarae, gan hyfforddi staff yn ddigonol mewn Gwaith Chwarae, a dealltwriaeth o Fannau Chwarae a Risg mewn Chwarae.

Felly sut gallwch chi ddangos eich bod yn cynnig amgylchedd chwarae o ansawdd?

**1. Cyfranogaeth Plant** Yn rhifyn yr Haf o'r Bont, fe wnaethom gyfeirio at bwysigrwydd rhoi i blant gyfleoedd, y modd a'r grym i fynegi eu safbwyntiau'n rhydd ar faterion sy'n effeithio arnynt, a phwys dyledus yn cael ei roi ar safbwyntiau'r plentyn yn ôl ei oed a'i aeddfedrwydd (erthygl 12, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn). Mae cefnogi cyfranogaeth yr holl blant yn cynyddu ymgysylltiad, hunan-dyb a pherchnogaeth, ac yn ei gwneud yn fwy tebygol y bydd y profiad chwarae'n un sy'n hwyl ac yn llawn boddhad i bob un cysylltiedig.

A oes gennych Bolisi Cyfranogaeth Plant yn ei le? (gwelwch ein canllaw Camu Allan i weld templed).

A ydych yn cynnig amryw of fyrdd i blant gyfranogi, rhoi adborth a chymryd perchnogaeth o'u Clwb? Er enghraifft, cyfarfodydd plant, holiaduron, bocsys awgrymiadau, newyddlen plant, gemau adborth/gwerthuso?

Sut ydych chi'n profi eich bod yn cefnogi Cyfranogaeth Plant mewn archwiliadau AGC? A oes gennych chi 'Ffeil Cyfranogaeth' yn cynnwys ffotograffau, arsylwadau a chanlyniadau holiaduron? A oes gennych fwrdd 'Fe ddwedoch chi, fe wnaethom ni' yn rhoi manylion yr adborth a dderbyniwyd a'r camau a gymerwyd?

**2. Rhestr Wirio Cyfartaledd mewn Chwarae** Fel Lleoliad dylech fod â Pholisi Cyfle Cyfartal yn ei le, ond a yw eich amgylchedd chwarae hefyd yn cefnogi cyfartaledd a chynhwysiant? Yn Camu Allan, mae gennym Restr Wirio Chwarae Cyfartal y gellir ei defnyddio fel man cychwyn i adlewyrchu ar a yw eich amgylchedd chwarae (llyfrau, gemau, adnoddau, posteri, gweithgareddau) yn cefnogi cynhwysiant. Er enghraifft, a ydych yn cynnig i blant y cyfle i ymchwilio i amrywiaeth o draddodiadau diwylliannol mewn gweithgareddau a 'dyddiau dathlu'? A oes gennych rolau/gyrfaoedd gwrywaidd a benywaidd 'di-stereoteip' wedi'u cynnwys mewn llyfrau, posteri ac adnoddau, yn ogystal â chynnwys amrywiaeth o sefyllfaoedd teulu/cartref (rhiant unigol, teuluoedd estynedig, llys-deuluoedd a.y.b.)? A yw'ch deunydd celf yn caniatáu paentio/lliwio pobl o wahanol ethnigrwydd i'w gilydd? A oes gennych ddigon o adnoddau chwarae sy'n cefnogi cynnwys rhai ag amhariad ar eu clyw, amhariad ar eu golwg neu blant ag anghenion ychwanegol (e.e. y sbectrwm Awtistaidd, plant yn defnyddio cadeiriau olwyn)? A oes gennych adnoddau awyr-agored i gefnogi gwahanol raddau o heriau a fyddai'n addas i amrywiaeth o alluoedd/camau datblygiad?

**3. Mathau o chwarae, mannau chwarae a dulliau ymyrryd** Yn ein Hasesiad o Ofal Plant Allysgol a ddatblygwyd yn rhan o'n Prosiect Pawb a'i Le a ariannwyd gan y Lotri Genedlaethol, mae adran sy'n arbennig ar gyfer adolygu ansawdd yr amgylchedd chwarae a gynigir yn eich Clwb. Cyfeirir at fathau o chwarae, mannau chwarae a dulliau o ymyrryd, er mwyn cynorthwyo Gweithwyr Chwarae i adlewyrchu ar y gwasanaethau presennol a gweld lle y mae cyfle i wella ansawdd y ddarpariaeth sy'n cael ei chynnig.

Ceir hyd i wybodaeth am y tair elfen hyn o amgylcheddau chwarae mewn man arall yn y rhifyn hwn o'r Bont, a hoffem eich annog i drafod y rhain gyda'ch staff, i adolygu'n gyson a chael eich ysbrydoli i adeiladu ar y profiadau chwarae y mae modd i blant eu cael yn eich Lleoliad.

## Ambell i dip da ar wneud eich lleoliad yn gynhwysol o'r dechrau'n deg!

Fel sector fe ymdrechwn i wneud ein lleoliadau mor gynhwysol â phosibl, ond a ydych wedi meddwl am sut y mae plant yn teimlo cyn dod i'w sesiwn cyntaf, ac efallai sut y gallwn wneud eu trawsnewid i leoliad newydd yn haws iddynt? Dyma rai o'n tips gorrau ar sut i wneud i blant deimlo eu bod yn cael eu croesawu i mewn i'r Lleoliad.

Rhai pethau i'w hystyried cyn i'r plant ddechrau yn y Lleoliad:
• Tynnwch luniau â phin sgrifennu, neu daflen â lluniau o'r staff arni i blant ymgyfarwyddo â sut rai yw'r staff i edrych arnynt; gallech hefyd gynnwys rai ffeithiau hwyliog am bob aelod unigol o'r staff.
• Gallech ofyn i'r plentyn (â help y rhieni lle bydd angen) i lunio'u darlun pin-sgrifennu eu hunain gyda'u hoffterau a'u hanhoffterau er mwyn iddynt deimlo'n rhan o'r broses sefydlu neu ymrestru.
• Byddwch â sesiwn ymrestru lle gall y plentyn ddod i edrych o gwmpas.

Rhai pethau a fyddai'n gwneud i'r plant deimlo bod croeso iddynt yn eu sesiwn cyntaf
• Cyflwynwch eich hunain fel staff i'r plentyn
• Efallai y gallech gael system fydïo lle bydd plant eraill neu staff yn dangos y plant o gwmpas y lleoliad
• Mae ffarwelio'n bwysig iawn, maent yn cydnabod eu bod yn gadael.
• Dylech gydnabod os nad aeth pethau'n rhy dda yn y sesiwn, a thrafod hyn gyda'r plentyn a'r rhiant/gofalwr i weld sut y gall pethau fod yn well y tro nesaf.

Mewn Gwaith Chwarae y mae'n debyg i fod ag angen bocs offer wrth law o hyd; mae'n bwysig cofio na fydd pob un dull yn gweithio i bob plentyn, gan eu bod nhw bob un yn wahanol i'w gilydd, ond gyda bocs yn llawn offer mae'n haws dod o hyd i ffordd effeithiol o'u gwneud i deimlo bod croeso iddyn nhw, a'u bod yn rhan o'r lleoliad.



# Hyrwyddo Chwarae mewn amgylchedd Chwarae lle cedwir pellter cymdeithasol

Ar hyn o bryd mae'r atgofion o fywyd yn ystod y cyfnod clo, ac ymbellhau cymdeithasol, yn gyffredin iawn yn ein cymdeithas. Ni wyddys i raddau helaeth am ba hyd y bydd yn para, nac ar ba ffurf. Mae cyfyngu ar gysylltiadau cymdeithasol yn rhan bwysig o leihau'r tebygolrwydd o weld lledaeniadau eang o'r feirws, ac mae'n bosibl y gallai'r digwyddiad hwn, neu un tebyg iddo, ymddangos eto yn y dyfodol; y mae sicr yn werth paratoi. Yr hyn sy'n sicr, yn awr y mae Lleoliadau'n datblygu i'w capasiti llawn, yw bod angen stôr fawr o weithgareddau wrth gefn er mwyn i Weithwyr Chwarae fedru cefnogi datblygiad iach a chynhwysol plant mewn unrhyw amgylchedd chwarae lle ceir pellhau cymdeithasol.

Yn ôl Oxford Languages y diffiniad o 'Ymbellhau cymdeithasol' yw'r 'radd o bellter a ganfyddir neu a ddymunir rhwng aelod un grŵp cymdeithasol ac aelodau un arall, fel y gwneir yn amlwg yn yr agosrwydd a oddefir rhyngddynt'. Yr allweddair yma yw 'pellter'. I rai gallai pellter cymdeithasol olygu eithrio cymdeithasol, yn enwedig ar adeg pan na ffafrir cymdeithasgarwch. Gall ein graddau o lwyddiant yn hyrwyddo'r ymddygiadau cymdeithasol iach hyn, yn ystod ac yn hir wedi'r argyfwng hwn benderfynu gwytnwch ein plant yn y dyfodol wrth iddynt oresgyn yn llwyddiannus sawl her a waethygwyd gan yr argyfwng hwn.

Fel yr ystyriwyd y rhifyn arbennig o'r Bont a ryddhawyd gennym, yn awr yn fwy nag erioed, bydd angen hyrwyddo rhyddid a risg yn gryf yn eich Lleoliadau. A chyfyngiad ar adnoddau, a pharhad rheoli haint, bydd gadael i blentyn fod y tu allan yn cymryd risgiau yn rhoi iddynt gyfleoedd a fu, am gyfran helaeth o'r flwyddyn hon, yn brin. Gallai'r profiad yma hefyd fod wedi gwaethygu ofnau mewn plant; mae rhai wedi dioddef swigen amddiffynnol am gymaint o'r flwyddyn 2020 fel y gallai datblygu eu hyder yn fwy yn awr drwy roi iddynt y cyfle i arbrofi â risg, fod yn gymorth mawr o ran y gorbryder hwn, ac yn fuddiol i adferiad plant ar y cyd yn ein cymunedau.

I'r pwrpas hwn byddwn yn ystyried y pum gwahanol fath o gemau y gellid eu defnyddio er mwyn hyrwyddo Chwarae a datblygu plentyndod iach mewn amgylchedd chwarae lle ceir ymbellhau cymdeithasol.

1 – Llunio eich gêm eich hun
Mae rhinweddau'r math hwn o gêm yn eithaf hawdd i'w fesur. Y mae'n hybu hawliau plant i ddewis personol a chyfranogaeth, gan ganiatáu'r rhyddidau a natur cymhelliad-personol, cynhenid chwarae. Bydd y plant wrth eu bodd yn llunio eu gemau eu hunain i'w chwarae. Rhowch gyfarwyddiadau clir ynghylch ymbellhau cymdeithasol, a gemau cost isel/dim cost ac anogwch blant i fod yn greadigol. Bydd chwarae gemau pawb hefyd yn hyrwyddo cynhwysiant ac yn ysbrydoliaeth i greadigrwydd.

2 – Gemau chwaraeon
Gellir chwarae'r mwyafrif o gemau yn yr awyr agored neu yn neuadd yr ysgol, a'r chwaraewyr yn gallu cadw pellter o ddau fetr yn gyffyrddus. Y peth pwysig i'w gofio yw peidio â chwarae gemau lle mae angen cyffwrdd â'r bêl; gellir chwarae pêl-droed, hoci a croce heb ddim cysylltiad llaw ar bêl. Mewn gemau megis hoci a chroce gellir annog y plant i ddod â'u ffyn eu hunain o ddefnyddiau naturiol neu ddefnyddiau a ailgylchwyd.

Heriwch blant hŷn â pheli tenis neu golff, tra gallwch ymddiddori plant iau â pheli pêl-droed neu beli sbwng mawr. Bydd gosod parthau yn eu lle yn galluogi'ch plant i gadw eu lleoedd ar bellter cymdeithasol lle bo'r angen. Gallech hefyd ail-greu diwrnod mabolgampau gyda'ch plant. Gosodwch orsafoedd gweithgaredd yn eu lle fel y gall y plant fwynhau'r holl ymarferiadau gorau ar bellter cymdeithasol: Cyrcydau, Estyll, Ymestyniadau, Neidiau, Herciau, Sgipio, Fflipio, Dull Rhydd.

3- Gemau llesiant iach - Yoga / Pilates / Grwpiau Dawns Swigod
Fel oedolion rydym ni i gyd yn gwybod gwerth yoga o ran llesiant, gwybyddiaeth, cydbwysedd ac ystum, ac ni allai fod yn amser gwell i ddefnyddio'r gweithgaredd yma yn eich Lleoliadau. Mae'r gweithgareddau yma'n gofyn bod pobl yn weithredol mewn ffordd wahanol i fod yn llonydd. Fell gemau pêl, gellid defnyddio parthau os oes angen/os yw'n ofynnol i dynnu sylw at barthau pellter cymdeithasol. I'r sawl sydd am ychydig yn fwy o symud, mae aps dawns adnabyddus wedi dod yn boblogaidd ymysg y rhai o oed cyn-arddegau, gan arddegwyr ac oedolion, a gallent fod yn rhywbeth y byddai plant yn mwynhau ei ddefnyddio i gystadlu yn erbyn ei gilydd. Byddai pob swigen yn dod yn grŵp dawns hefyd yn hybu cydweithredu iach a chreadigrwydd gweithiol mewn amgylchedd chwarae ar bellter cymdeithasol.

4 – Chwarae Allan gyda'r Elfennau – Helfeydd sborion
Mae Tân, Aer a Dŵr yn adnabyddus fel offer gwerthfawr yn natblygiad plant, ac wrth i ni symud drwy'r gaeaf dônt â ffyrdd newydd ar gyfer chwarae, a rhew a thân yn dod â ffyrdd hanfodol, newydd ar gyfer y posibilrwydd o hwyl, cyffro a risg. Mae helfeydd sborion hefyd yn gêm y gellid ei haddasu'n hawdd mewn amgylchedd o ymbellhau cymdeithasol.

5 – Adeiladu â rhannau rhydd
Fel y trafodwyd yn ein rhifyn Haf Arbennig o'r 'Bont', y mae llawer o rannau rhydd y gellid dal eu defnyddio mewn Lleoliadau, rhai y gellir naill ai eu glanhau'n hawdd, eu storio am 72 awr rhwng eu defnyddio, neu eu hailgylchu wedi eu defnyddio. Gwelir isod rai awgrymiadau cychwynnol ar gyfer rhannau rhydd y gellid eu cynnig mewn sesiwn chwarae ar bellter cymdeithasol:
Poteli gwag • Riliau ac olwynion edafedd wedi'u hailgylchu • Cyrc • Cwpanau a chaeadau plastig • Gweddillion defnyddiau • Edafedd• Cylchoedd cyrtens • Offer cegin • Clipiau papur • Gemwaith gwisgoedd • Papurau newydd • Tâp • Peli • Racedi • Cregyn

Y peth pwysicaf yn ystod yr amser yma, ac ar unrhyw adeg yw ffocysu ar lesiant y Lleoliad cyfan drwy ddarparu amgylchedd diogel a hapus fel y gall y plant gael digonedd o hwyl. Dylai hyrwyddo dewis, gwydnwch a rhyddid bob tro fod yn amcanion.

Gobeithio y gwnewch chi fwynhau'r gemau cost isel/dim cost yma i blant sy'n ymbellhau'n gymdeithasol. A oes gennych chi unrhyw syniadau i'w rhannu? Cofiwch roi gwybod i ni @ clybiauplantcymru.org

Am arweiniad pellach mewn perthynas â Gwaith Chwarae wedi Covid-19, cyfeiriwch at ein rhifyn Haf arbennig o'r Bont@
https://www.clybiauplantcymru.org/pdfs/Playworking%20after%20Covid%2019%20-%20INDIVIDUAL%20PAGES.pdf

# Drosodd atoch chi, blant!

A'r rhifyn hwn o'r Bont yn canolbwyntio ar hawl Plentyn i chwarae, roeddem yn credu y dylem adael iddyn nhw ddweud wrthych chi am eu hawliau nhw a'r hyn y mae Chwarae'n ei olygu iddyn nhw. Dyma rai o'r atebion a ddaeth gan blant rhyfeddol Cymru.



## Reuben, 7 blwydd oed, Bro Morgannwg

**Beth mae chwarae'n ei feddwl i ti?** Hwyl a hapusrwydd.

**Beth yw'r pethau gorau i'w chwarae?** Unrhyw beth gyda ffrindiau.

**Wyt ti'n gwybod beth yw hawliau plant?** Dwi ddim ond yn gwybod y galla i chwarae gyda ffrindiau a chefndryd.

**Wyt ti'n gwybod bod gen ti hawl i chwarae?** Ydw, dwi'n gwybod dwi'n gallu chwarae.

**Wyt ti'n credu bod plant sydd angen mwy o help yn cael yr un cyfleoedd â ti i chwarae? Beth mae mwy o help yn ei feddwl? Beth yw anableddau?** O, dwi ddim yn gwbod, ond mae angen i bob un ohonon ni chwarae!

**Beth all oedolion ei wneud yn wahanol i dy helpu di i chwarae?** Dylai mam ddim ond gweithio yn y boreau a dylwn i ddim ond gwneud gwaith ysgol yn y boreau, yna gallwn ni chwarae drwy'r prynhawn.





## Dougie, 6 blwydd, Torfaen

**Beth mae chwarae'n ei feddwl i ti?** Wyt ti'n gallu chwarae gyda dy ffrindiau am amser hir.

**Beth yw'r pethau gorau i'w chwarae?** Cwato a Ffeindio, Tag and Helo Gymydog

**Wyt ti'n gwybod beth yw hawliau plant?** Ydw, mae'n rhaid i oedolion ein cadw ni'n dwym, gwneud yn siŵr nad y'n ni'n mynd yn dost, a'n bod ni'n bwyta bwyd iach.

**Wyt ti'n gwybod bod gen ti hawl i chwarae?** Ydw, achos dwi'n chwarae gydag Ethan.

**Wyt ti'n credu bod plant sydd angen mwy o help yn cael yr un cyfleoedd â ti i chwarae?** Dwi'n gwneud yn siŵr mod i'n gofalu amdanyn nhw a chwarae gyda nhw.

**Beth all oedolion ei wneud yn wahanol i dy helpu di i chwarae?** Gwneud mygydau i ni.

## Darcy, 6 blwydd, Conwy

**Beth mae chwarae'n ei feddwl i ti?** Mae'n hwyl. Dwi'n hoffi esgus bod pethau'n digwydd i fy noliau i, fel 'symud tŷ', neu mynd allan am y diwrnod i'r parc neu'r sŵ.

**Beth yw'r pethau gorau i'w chwarae?** Dwi'n hoffi chwarae gyda fy Barbies, yn gwneud tai a gwneud pentref i fy noliau iddyn nhw fynd i weld beth sydd yno.

**Wyt ti'n gwybod bod gen ti hawl i chwarae?** Ydw, dyw fy mam ddim yn dweud 'dim teganau heddiw'.

**Beth all oedolion ei wneud yn wahanol i'th helpu di i chwarae?** Os yw pethau'n anodd i fi dwi'n gofyn iddyn nhw helpu, maen nhw'n gallu rhoi pethau i fyny'n uchel i mi.

## Rhys, 10 blwydd, Torfaen

**Beth mae chwarae'n ei feddwl i ti?** Amser chwarae yn yr ysgol. Cael hwyl gyda ffrindiau.

**Beth yw'r pethau gorau i'w chwarae?** Rygbi, mynd ar fy meic, chwarae gyda ffrindiau

**Wyt ti'n gwybod beth yw hawliau plant?** Dwi ddim yn gwybod. Mae oedolion yn gofalu amdanon ni, yn gwneud yn siŵr ein bod ni'n mynd i'r ysgol ac yn cael bwyd.

**Wyt ti'n gwybod bod gen ti hawl i chwarae?** Ydw, mae fy Mam a'n Nhad yn yn gadael i fi fynd mas gyda fy ffrindiau ac yn mynd â fi i'r rygbi.

**Wyt ti'n credu bod plant sydd angen mwy o help yn cael yr un cyfleoedd â ti i chwarae?** Dwi'n helpu fy ffrindiau sydd yn newydd i rygbi achos ro'n nhw'n nerfus a ddim yn siŵr o bethau.

**Beth all oedolion ei wneud yn wahanol i'th helpu di i chwarae?** Gall oedolion ein helpu/ hyfforddi ni gyda pethau newydd.

## Ben, 3 blwydd, Torfaen

**Beth mae chwarae'n ei feddwl i ti?** Dal a chwarae gyda pheli a phethau

**Beth yw'r pethau gorau i'w chwarae?** Peppa Pig, Mae gen i dedi o Peppa Pig a George.

**Beth all oedolion ei wneud yn wahanol i'th helpu di i chwarae?** Chwarae gyda teganau

## Ethan, 6 blwydd, Torfaen

**Beth mae chwarae'n ei feddwl i ti?** Chwarae gyda phethau, teganau, fy ffrindiau

**Beth yw'r pethau gorau i'w chwarae?** Chwarae cwato a ffeindio, rhedeg o gwmpas. Chwarae gyda Dougie

**Wyt ti'n gwybod beth yw hawliau plant?** Pobl yn gofalu amdanon ni.

**Wyt ti'n gwybod bod gen ti hawl i chwarae?** Chwarae gyda fy ffrindiau yn yr ysgol ac yn fy ngardd.

**Wyt ti'n credu bod plant sydd angen mwy o help yn cael yr un cyfleoedd â ti i chwarae?** Dwi'n eu helpu nhw i chwarae

**Beth all oedolion ei wneud yn wahanol i'th helpu di i chwarae?** Chwarae drwy'r amser



## Ffion, 11 ½ oed, RhCT

**Beth mae chwarae'n ei feddwl i ti?** Cael hwyl gyda fy ffrindiau, chwarae gemau. Gallai fod yn gemau bwrdd neu'n chwarae gyda phêl y tu allan. Fy hoff chwarae yw chwarae y tu allan gyda ffrindiau.

**Beth yw'r pethau gorau i'w chwarae?** Dwi'n hoffi gemau pêl, chwarae cardiau, gemau bwrdd, adeiladu deniau, chwarae mewn nentydd,ond dwi hefyd yn hoffi gemau tîm fel pêl-rwyd.

**Wyt ti'n gwybod beth yw hawliau plant?** Ydw, pethau ry'n ni'n cael gwneud, a pethau sydd fel y gyfraith. Felly mae gyda ni hawl i fod yn saff, i fynd i'r ysgol a dysgu pethau, i gael bwyd a rhywle i fyw, i gael barn, pethau fel 'na.

**Wyt ti'n gwybod bod gen ti hawl i chwarae?** Ydy, dysgais i am hwnna yn y cyfnod clo gyda mam. Mae gen i hawl i chwarae yn rhydd.

**Wyt ti'n credu bod plant sydd angen mwy o help yn cael yr un cyfle â ti i chwarae?** Weithiau, dwi'n meddwl. Fel, weithiau mae siglenni arbennig yn y parc i blant sy'n defnyddio cadair olwyn, ac yn yr ysgol mae pobl eisiau i ni gynnwys pawb, o wahanol oedran a gallu. Ond weithiau dyw e ddim yn gyfartal achos dyw pawb ddim yn garedig i bobl sy'n wahanol.

**Beth all oedolion ei wneud yn wahanol i'th helpu di i chwarae?** Dwi ddim yn credu bod arna i angen help i chwarae nawr. Achos mod i'n hŷn dwi jyst angen bod yn rhydd i fynd mas i chwarae ar fy mhen fy hun neu gyda ffrindiau, gallu mynd i'r parc neu'r cae heb fy rhieni.

## Rosie, 3 blwydd, Torfaen

**Beth mae chwarae'n ei feddwl i ti?** Chwarae â sleim

**Beth yw'r pethau gorau i'w chwarae?** Dwi'n hoffi fy mocs teganau.

**Beth all oedolion ei wneud yn wahanol i dy helpu di i chwarae?** Pos Peppa Pig

## Elis, 9 oed, Conwy

**Beth mae chwarae'n ei feddwl i ti?** Cael hwyl, gwneud ffrindiau a bod yn neis.

**Beth yw'r pethau gorau i'w chwarae?** Mae pobl yn hoffi pethau gwahanol, felly does dim byd yn beth orau i'w chwarae am bod plant eraill yn mwynhau pethau gwahanol.

**Beth wyt ti'n hoffi chwarae?** Dwi'n hoffi chwarae cuddio a ffeindio, tip a magpie.

**Wyt ti'n gwybod beth yw hawliau plant?** Na.

**Wyt ti'n gwybod bod gen ti hawl i chwarae?** Ydw, achos bydddai o ddim yn deg i beidio gadael i ni chwarae.

**Wyt ti'n credu bod plant sydd angen mwy o help yn cael yr un cyfleoedd â ti i chwarae?** Ydw, achos dan nhw ddim yn wahanol o gwbl i mi.

**Beth all oedolion ei wneud yn wahanol i'th helpu di i chwarae?** Gwneud i blant beidio â bod yn gas am beth mae gwahanol bobl yn hoffi chwarae â nhw.

## Lloyd, 11 oed, Conwy

**Beth mae chwarae'n ei feddwl i ti?** Cael hwyl a bod gyda ffrindiau

**Beth yw'r pethau gorau i'w chwarae?** Gemau sydd â gwaith tîm a sy'n dysgu sgiliau bywyd

**Beth wyt ti'n hoffi chwarae?** Pêl-droed, fy meic a gwneud pethau fel rampiau beic.

**Wyt ti'n gwybod beth yw hawliau plant?** Ydw, mae gan blant yr hawl i chwarae

**Wyt ti'n gwybod bod gen ti hawl i chwarae?** Ydw

**Wyt ti'n credu bod plant sydd angen mwy o help yn cael yr un cyfleoedd â ti i chwarae?** Dyla nhw, ond withiau mae gwneud yr un pethau a fi yn anodd iddyn nhw. Fel pan aethon ni i gerdded ar hyd ceunant, roedd 'plentyn A' yn ffeindio hyn yn anodd, ond gyda ychydig o help gan 'Mrs xx' roedd hi'n gallu gwneud y daith i gyd yn y diwedd.

**Beth all oedolion ei wneud yn wahanol i dy helpu di i chwarae?** Dwi ddim yn gwbod wir, gartre, dim byd, ond yn yr ysgol falla chwarae gyda ni fwy.



## Millie, 6 oed, Pen-y-Bont ar Ogwr

**Beth mae chwarae'n ei feddwl i ti?** Chwarae gyda teganau a bod gyda ffrindiau.

**Beth yw'r pethau gorau i'w chwarae?** Gemau – Rwy'n hoffi rhedeg o gwmpas. A dwi'n hoffi chwarae gyda fy noliau a dychmygu pethau.

**Wyt ti'n gwybod beth yw hawliau plant?** Ry'n ni'n fach ac felly mae'n rhaid i bobl ofalu amdanon ni a gwneud yn siŵr bod ni'n iawn.

**Wyt ti'n gwybod bod gen ti hawl i chwarae?** Felly ydw i'n gallu aros lan yn hwyr yn chwarae?

**Wyt ti'n credu bod plant sydd angen mwy o help yn cael yr un cyfle â ti i chwarae?** Gwelais i siglen ar y teledu ar gyfer plant mewn cadeiriau olwyn, fel y gallan nhw fwynhau bod yn y parc. Does dim un o'r pethau yna yn y parciau lle rwyf i'n mynd, felly mae hynny'n drist - dylen nhw wneud mwy ohonyn nhw. Ond maen nhw'n dal yn gallu chwarae dychmygu a chwarae tag. Dylai pawb chwarae, mae'n hwyl.

**Beth all oedolion ei wneud yn wahanol i dy helpu di i chwarae?** Gwneud pethau gwahanol, weithiau dwi eisiau chwarae gyda ti, weithiau dwi eisiau chwarae ar fy mhen fy hun, neu gyda ffrindiau.



## James, 3 oed, Pen-y-Bont ar Ogwr

**Beth mae chwarae'n ei feddwl i ti?** Rwy'n chwarae mamau a thadau gyda fy chwaer a dwi'n hoffi bod y ci bach ("wff wff, fel'na).Mae chwarae'n hwyl.

**Beth yw'r pethau gorau i'w chwarae?** Dwi'n hoffi chwarae gyda fy ffrind Toby a chwarae tu allan a rhedeg o gwmpas. Dwi'n rhedeg yn glou nawr achos tyfais i.

**Beth all oedolion ei wneud yn wahanol i dy helpu di i chwarae?** Weithiau dwi'n mynd yn wlyb ar y traeth felly mae eisiau ichi gymryd dillad sbar, a wedyn dwi'n gallu mynd yn wlyb, neu bydda i'n cael annwyd wedyn.

## Jasmine, 12 blwydd, Sir Gaerfyrddin

**Beth mae chwarae'n ei feddwl i ti?** Bod ar hyd y lle gyda ffrindiau

**Beth yw'r pethau gorau i'w chwarae?** Gemau ar-lein

**Wyt ti'n gwybod beth yw hawliau plant?** Ydw

**Wyt ti'n gwybod bod gen ti hawl i chwarae?** Ydw

**Wyt ti'n credu bod plant sydd angen mwy o help yn cael yr un cyfleoedd â ti i chwarae?** Falle ddim, achos dy'n nhw ddim yn gallu gofyn gymaint.

**Beth all oedolion ei wneud yn wahanol i dy helpu di i chwarae?** Stopio gwaith tŷ a gwaith cartref

## Jacob, 10 oed, RhCT

**Beth mae chwarae'n ei feddwl i ti?** Egni a symud o gwmpas a chael hwyl (gyda wyneb "yn amlwg, duh")

**Beth yw'r pethau gorau i'w chwarae?** Gyda ffrindiau, tag teuluol, tag arferol, mob, gemau sy'n cynnwys mwy nag 1 person.

**Wyt ti'n gwybod beth yw hawliau plant?** Ydw, mae gyda ni hawl i chwarae, yr hawl i gael pobl i wrando arnon ni a hawl i wneud pethau.

**Wyt ti'n gwybod bod gen ti hawl i chwarae?** Ydw, ac mae'n dda cael yr hawl yma.

**Wyt ti'n credu bod plant sydd angen mwy o help yn cael yr un cyfleoedd â ti i chwarae?** Ddim yr un rhai, ond maen nhw yn cael rhai cyfleoedd.

**Beth all oedolion ei wneud yn wahanol i'th helpu di i chwarae?** Mwy o le, mwy o amser, a'n bod ni'n cael chwarae.

# Helpu plant i wybod pa hawliau sydd ganddynt

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

A ffocws y rhifyn hwn o'r Bont ar hawliau plant a phobl ifanc, mae i'r tudalen gweithgareddau fformat gwahanol y tro hwn. Rydym am annog lleoliadau i gefnogi plant a phobl ifanc i wybod pa hawliau sydd ganddynt, ac fel Gweithwyr Chwarae i fedru eiriol yn hyderus dros hawliau plant a phobl ifanc. Dyma rai awgrymiadau ar sut y gallwch wneud hyn:

Gan ddefnyddio'r Adnodd Symbolau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC) a luniwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru, beth am argraffu set neu ddwy, fel eu bod yn chwarae â maint cardiau, a rhoi cynnig ar ychydig o'r gemau a awgrymir isod. Mae'r cardiau, sy'n ddwyochrog yn dangos y Gymraeg a'r Saesneg, yn adnodd gwych i'w ddefnyddio ac yn ffordd syml o helpu plant i ddeall pa hawliau sydd ganddynt.

https://www.complantcymru.org.uk/ccuhp-hawliau-plant/adnodd-symbolau-ccuhp/

**Helfa Sborion UNCRC**
Gan ddefnyddio cardiau wedi'i lamineiddio, cuddiwch nhw o gwmpas y Lleoliad. Rhowch 5 munud i'r plant er mwyn gweld faint o'u hawliau y gall y plant ddod o hyd iddynt, gallech hyd yn oed eu rhannu'n grwpiau ar wahân, a bydd yn rhaid iddyn nhw ddod o hyd i rifau arbennig. Cyfle gwych i drafod pa rai y maent wedi dod o hyd iddynt a beth a allai hyn ei olygu iddynt.

**Snap UNCRC**
Argraffwch 2 neu 3 set o'r adnodd o faint cardiau a'u lamineiddio. Gwych am gêm o Snap Hawliau,ond yn lle gweiddi "snap" mae'n rhaid iddynt weiddi "fy hawliau".

**Cardiau UNCRC**
Gan ddefnyddio 2 set o'r cardiau, deliwch 5 cerdyn i bob chwaraewr. Nod y gêm yw cael 5 cerdyn mewn rhes, er enghraifft, Cardiau Hawliau UNCRC 31,32, 33, 34 a 35. Bydd un chwaraewr yn dechrau gyda gweddill y cardiau ar y dde iddynt; yna maent yn codi un, ac yn ddibynnol ar a ydynt ei angen, yn ei gadw neu'n ei roi i lawr ar y chwith iddynt. Mae'r chwaraewr nesaf yn gwneud yr un fath ac felly ymlaen. Gall hon fod yn gêm eithaf cyflym i'w chwarae, ac un eithaf hwyliog. Y person cyntaf i'w cael mewn rhes sy'n gweiddi 'fy hawliau'.

**Uwch neu is UNCRC**
Pwy a all fynd ymhelaf gyda'r cardiau gan ddyfalu a fydd y cerdyn Hawliau nesaf i gael ei droi drosodd yn uwch neu'n is? Faint o'r rhain mewn rhes a allant eu dyfalu'n gywir ... A allant fynd drwy'r pecyn cyfan?

**Countdown UNCRC**
Paratowch 2 bentwr o gardiau rhif a'r rhifau 0-9 arnynt. Gofynnwch i dri o blant i ddewis cerdyn yr un a'u gosod allan o'u blaenau. Er enghraifft, gallent ddewis 0 - 5 - 6, sy'n golygu mai'r rhif y mae'n rhaid iddyn nhw ei gyrraedd yw 56, neu yn achos 3- 4 - 1, byddai'n rhaid iddyn nhw gyrraedd 341. Yna bydd pob un o'r plant yn dewis 5 cerdyn Hawliau UNCRC, a chan ddefnyddio'r rhifau y gwnaethant eu dewis ynghyd â -/+/x/÷ mae'n rhaid iddynt weld pwy a all fynd agosaf i'r rhif gwreiddiol y gwnaethant ei ddewis. I'w wneud yn anoddach, gosodwch amserydd 2-funud.

**Gemau o gwmpas y byd**
Mae gan blant o gwmpas y byd brofiadau gwahanol iawn pan ddaw hi'n fater o chwarae a pha fannau ac adnoddau sydd ar gael i chwarae â nhw. Beth am geisio chwarae ambell i gêm o wahanol rannau o'r byd. Gwelir rhai enghreifftiau isod, ond i gael mwy o syniadau beth am roi cynnig ar y wefan hon: http://theirworld.org/news/games-that-school-children-play-around-the-world

**Golau Coch, Golau Gwyrdd (UDA)** (3 chwaraewr neu fwy)
Y gôl: rhuthro o un pen o'r iard i'r nesaf i dagio'r "golau stop".

Cam 1: Mae'r chwaraewr "golau stop" yn sefyll 20 troedfedd oddi wrth y lleill.
Cam 2: Mae'r golau stop yn troi eu cefn atynt ac yn gweiddi "golau gwyrdd!". Mae'r chwaraewyr eraill yn rhuthro tuag atynt.
Cam 3: Mae'r golau stop yna'n gweiddi "golau coch!" ac yn troi wynebu'r rhedwyr. Cyn gynted ag y byddant yn clywed "golau coch" bydd y rhedwyr yn rhewi. Bydd unrhyw un sy'n cael ei ddal yn symud allan o'r gêm. Bydd hyn yn parhau hyd nes y bydd rhedwr yn tagio'r golau stop. Y rhedwr yna fydd 'yr 'un' yn y rownd nesaf. Os yw'r golau stop yn dal pob rhedwr cyn iddynt gael eu tagio, fe gaiff ef/hi fod 'yr un' unwaith eto.

**Pilolo (Ghana: Gorllewin Affrica)** (6 chwaraewr neu fwy)
Mewn rhannau gwledig o Ghana yng Ngorllewin Affrica, mae'r dewis o deganau sydd gan blant yn eithaf cyfyngedig, ond maen nhw'n dod o hyd i lawer o ffyrdd o gael hwyl.

Y nod: Bod y cyntaf i ddod o hyd i'r gwrthrych cudd a'i gario dros y llinell derfyn.

Cam 1: Dychmygwch gyfuniad o helfa drysor a ras. Dewiswch un plentyn yn arweinydd ac un arall yn amserwr; y gweddill fydd y chwilwyr.
Cam 2: Mae'r chwilwyr yn troi eu cefnau werthi'r arweinydd guddio gwrthrychau bychain yn y maes chwarae. Gall y rhain fod yn gerrig, darnau arian neu ffyn, ond dylai pob un fod o'r un math. Bydd yr amserwr sefyll wrth y llinell derfyn.
Cam 3: Pan fydd yr arweinydd yn dweud "ewch" bydd y chwilwyr yn chwilio am wrthrych. Y cyntaf i ddod o hyd i un a'i gario dros y llinell derfyn sy'n ennill. Yr amserwr a fydd yn barnu pwy sy'n croesi gyntaf.

**Cysgodion (Iwerddon)**
Rhaid i chwaraewyr sefyll ar gysgodion gwrthwynebydd er mwyn eu dal - yna nhw fydd y cwrswr. Os ydych yn cael eich cwrso gallwch redeg i le wedi'i gysgodi lle na fydd gennych gysgod ac yna fe fyddwch chi'n ddiogel.

**Daruma (Japan)**
Mae'r chwaraewr yn ffurfio rhes tua 30 troedfedd o wal mewn ymgais i'w gyrraedd. Mae'r chwaraewr a ddynodir 'yr un' 'yn wynebu'r wal ac yn dweud "Mae Daruma'n syrthio" cyn troi i'w hwynebu. Os yw'n gweld rhywun yn symud caiff y person hwnnw ei ddal a rhaid iddo/iddi ddod at y wal.

